Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Polisi Gorfodi ac Erlyn

## Canllawiau Gorfodi a Chosbi

Rhagfyr 2012

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

© Hawlfraint y Goron 2012

# Cyfoeth Naturiol Cymru

# Canllawiau ar Orfodi a Chosbau

- Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar Orfodi a Chosbau a defnyddio cosbau sifil a throseddol.
- Dylid ei darllen ar y cyd â'r Datganiad Polisi ar Orfodi ac Erlyn.
- Mae'n gymwys i'r holl bwerau Gorfodi sydd wedi'u trosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru o Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru, y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.
- Mae enghreifftiau o'r mathau o dramgwyddau a'r opsiynau sydd ar gael i ymateb drwy orfodi yn atodiad 4 i'r ddogfen hon.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Gweithredu yn erbyn y Goron | 3 |
| Costau | 4 |
| Egwyddorion Cosbi | 4 |
| Gorfodi sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | 5 |
| Ymatebion gorfodi cyffredinol | 7 |
| Cosbau troseddol | 8 |
| Cosbau Sifil Deddf GRhS | 10 |
| Cosbau Sifil Eraill | 12 |
| Sut y byddwn yn dewis yr ymateb priodol? | 13 |
| Ffactorau lles y cyhoedd | 15 |
| Ystyriaethau eraill er lles y cyhoedd | 17 |
| Hysbysiadau, pwerau a gorchmynion eraill | 19 |
| Gweithdrefnau ar gyfer cosbau sifil Deddf GRhS | 19 |
| Apeliadau | 22 |
| Darpariaethau digolledu – Hysbysiadau Atal | 24 |
| Dogfennau cysylltiedig | 24 |
| Atodiad 1: Methodoleg y Gosb Ariannol Amrywiadwy | 25 |
| Atodiad 2: Ymgymeriadau Gorfodi | 42 |
| Atodiad 3: Seiliau dros Apelio yn erbyn cosbau Deddf GRhS | 47 |
| Atodiad 4: Enghreifftiau o dramgwyddau ac opsiynau ar gyfer ein hymateb gorfodi | |

# Cyflwyniad

## Cyffredinol

Mae'r ddogfen hon yn trafod y ffordd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud penderfyniadau ynghylch gorfodi, y mathau o ddulliau sydd ar gael a'r prosesau sy'n gysylltiedig.

Byddwn yn defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael i ni ar gyfer gorfodi a gosod cosbau, gan eu defnyddio ar y cyd os bydd angen, i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r amgylchedd ac i bobl. Gallai hyn amrywio, er enghraifft, o gynnig cyngor a chyfarwyddyd i erlyn. Wrth weithredu fel hyn, lle y mae tramgwydd wedi'i gyflawni byddwn yn ystyried gosod rhyw fath o gosb yn ogystal â chymryd unrhyw gamau eraill ar gyfer atal neu unioni i ddiogelu'r amgylchedd a phobl. Yn y ddogfen hon, mae unrhyw gamau sy'n mynd ymhellach na darparu cyngor a chyfarwyddyd neu roi rhybudd yn cael eu hystyried yn gosb, boed yn sifil neu'n droseddol.

Y diffiniad o gosb i ddibenion y canllawiau hyn yw gofyniad gorfodi (fel hysbysiad), cytundeb cyfreithiol rhwymol neu gosb sy'n cael ei gosod gennym ni neu gan lys.

Er mwyn dechrau erlyn rhaid i ni gael ein bodloni bod yr achos o'n blaen yn bodloni'r prawf yng Nghod Erlynwyr y Goron, sef bod posibilrwydd realistig o gael collfarn.

## Y baich profi

Mae baich profi mwy ar gyfer y rhan fwyaf o'r cosbau a roddir dan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (Deddf GRhS), sef bod rhaid i ni gael ein bodloni y tu hwnt i bob amheuaeth resymol fod tramgwydd wedi'i gyflawni cyn y gallwn osod cosb. Yng nghyswllt Ymgymeriadau Gorfodi yr ydym wedi'u derbyn dan y Ddeddf honno rhaid i ni fod â sail resymol dros gredu bod tramgwydd wedi'i gyflawni cyn y gallwn dderbyn y cynnig. Mewn achosion o'r fath byddwn am allu cadarnhau bod tramgwydd wedi'i gyflawni beth bynnag rhag ofn y bydd angen camau gorfodi pellach os bydd tramgwyddwr yn methu â chydymffurfio â'r ymgymeriad.

# Gweithredu yn erbyn y Goron

## Gweithredu yn erbyn y Goron

Ni fydd unrhyw dramgwyddo gan y Goron yn erbyn unrhyw ddarpariaeth yn gwneud y Goron yn droseddol atebol, ac ni ellir gosod cosb sifil ar y Goron dan Ddeddf GRhS.

Er hynny, caiff Cyfoeth Naturiol Cymru wneud cais i'r Uchel Lys am ddatganiad bod rhyw weithred neu anweithred gan y Goron yn anghyfreithlon. Mae hwn yn gwrs gweithredu anarferol a bydd penderfyniad i'w ddilyn yn dibynnu ar y canlynol:

- difrifoldeb y digwyddiad neu doriad;
- a dderbyniwyd bod atebolrwydd;
- ymateb y corff sy'n gysylltiedig.

## Costau

**Costau**

Os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny, byddwn bob amser yn ceisio adennill y costau am ymchwilio a chymryd camau gorfodi. Os byddwn wedi gwneud gwaith adfer, byddwn yn ceisio adennill yr holl gostau a godwyd oddi wrth y rheini sy'n gyfrifol yn unol ag egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'. Mae darpariaethau manwl ynghylch costau sy'n codi drwy osod cosbau sifil dan Ddeddf GRhS wedi'u disgrifio isod.

## Egwyddorion Cosbi

**Egwyddorion Cosbi**


Wrth ystyried pa ddull o weithredu sy'n briodol i ddelio â thramgwyddo a sicrhau cydymffurfiaeth, byddwn yn ceisio dilyn yr egwyddorion cosbi a nodwyd yn Adolygiad Macrory ac sydd wedi'u cynnwys yng Nghod Cydymffurfio'r Rheoleiddwyr.

- ceisio newid ymddygiad y tramgwyddwr;
- ceisio dileu unrhyw fudd neu enillion ariannol o beidio â chydymffurfio;
- bod yn ymatebol ac ystyried beth sy'n briodol ar gyfer y tramgwyddwr neu fater cydymffurfio dan sylw, a gall hyn gynnwys cosbi a'r stigma cyhoeddus a ddylai fod yn gysylltiedig â chollfarn am dramgwyddo;
- bod yn gymesur â natur y tramgwydd a'r niwed a achoswyd;
- ceisio gwneud iawn am y niwed a achoswyd drwy beidio â chydymffurfio â gofynion rheoliadol, os yw'n briodol;
- ceisio atal tramgwyddwyr rhag peidio â chydymffurfio yn y dyfodol.

## Gorfodi sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau

**Gorfodi sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau**

Gallwn ddefnyddio’r cosbau sydd ar gael i sicrhau canlyniadau amgylcheddol. Mae pedwar math o ganlyniad y gallwn eu ceisio:




**Canlyniadau**

Mae’r dulliau sydd ar gael i ni (yn ogystal â’r gallu i roi cyngor a chyfarwyddyd a rhybuddion sydd wedi’i ddisgrifio isod) ar gyfer gorfodi a gosod cosbau er mwyn cael y canlyniadau a ddymunir yn cynnwys y canlynol.  Mae’n bwysig cofio ei bod yn bosibl defnyddio rhai ohonynt ar y cyd i sicrhau mwy nag un canlyniad.

Mae’r termau uchod wedi’u diffinio a’u hegluro ymhellach isod.

**Ffyrdd o atal tramgwyddo – Blwch A**

Gwaharddebau

Mae gwaharddeb yn orchymyn gan lys sy'n cyfarwyddo unigolyn (neu gwmni) i un ai:

- atal gweithgarwch penodol (gwaharddeb atal); neu
- gyflawni gweithgarwch penodol (gwaharddeb gorfodi).

Mae methu â chydymffurfio â gwaharddeb yn cael ei drin fel dirmyg llys a gellir rhoi cosb drwy osod dirwy a/neu ddedfryd o hyd at ddwy flynedd mewn carchar.

Gorchymyn Llys dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr 2010 (Rheoliadau TA)

- Mae hwn yn debyg i waharddeb.

Hysbysiadau

- Hysbysiad atal;
- Hysbysiad atal dros dro;
- Hysbysiad gwahardd dŵr daear;
- Hysbysiad gwaith gwrth-lygredd.

---

**Ffyrdd o unioni neu adfer – Blwch B**

Hysbysiadau

- Hysbysiad adfer;
- Hysbysiad gorfodi;
- Rhybudd i symud gwastraff;
- Rhybudd i ailstocio coedwigoedd
- Hysbysiad gwaith gwrth-lygredd.

Pwerau

- Dan Reoliadau TA 2010, pŵer i geisio gorchymyn adfer rheoliad 44;
- Derbyn Ymgymeriad Gorfodi neu dderbyn Ymgymeriad Trydydd Parti. Gall hyn gynnwys talu iawndal i drydydd parti neu gymuned am weithgareddau sy'n cael effaith niweidiol arnynt.

---

**Ffyrdd o orfodi rheoleiddio – Blwch C**

Hysbysiadau

- Hysbysiad cydymffurfio;
- Hysbysiad gorfodi;
- Hysbysiad atal dros dro;
- Hysbysiad gwaith gwrth-lygredd;
- Dirymu trwydded amgylcheddol;
- Amrywio amodau trwydded.

Pwerau

- Derbyn Ymgymeriad Gorfodi.

---

**Ffyrdd o atal a/neu gosbi – Blwch D**

- Cosbau Troseddol
- Cosbau Ariannol Amrywiadwy, Cosbau Ariannol Penodedig.
- Cosbau sifil ychwanegol ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r UE a Chynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon.

## Ymatebion gorfodi cyffredinol

**Cyngor a chyfarwyddyd – cymorth i gydymffurfio**

Ceisiwn ddarparu cyngor a chyfarwyddyd ar unrhyw adeg i helpu gweithredwyr neu unigolion i gydymffurfio â gofynion rheoliadol. O ran gorfodi, byddwn fel arfer yn darparu cyngor a chyfarwyddyd ar ôl i dramgwydd gael ei gyflawni neu lle y credwn fod tramgwydd yn debygol o gael ei gyflawni. Pan fyddwn yn darparu cymorth i gydymffurfio o'r math hwn, fe wneir hynny heb leihau effaith unrhyw ymateb gorfodi arall sydd ei angen. Rhoddir cymorth i gydymffurfio ar lafar neu drwy lythyr ond, beth bynnag fydd ffurf y cymorth, caiff ei gofnodi. Os bydd y methiant i gydymffurfio'n parhau neu'n digwydd eto, gall hyn ddylanwadu ar y dewis o ddull ymateb ar ôl hynny.

Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau ateb parhaol i'r broblem a oedd wrth wraidd y tramgwydd os oes modd.

**Rhybuddion**

Mae rhybudd yn hysbysiad ysgrifenedig ein bod yn credu bod tramgwydd wedi'i gyflawni. Gall yr hysbysiad fod ar ffurf:

- llythyr rhybuddio; neu
- rybudd safle sy'n cael ei roi ar y safle fel arfer neu mewn ffordd arall o ganlyniad i ymweliad cydymffurfio â safle neu weithgarwch sydd wedi'i drwyddedu.

Caiff ei gofnodi ac, os bydd methiant i gydymffurfio eto, gall hyn ddylanwadu ar y dewis o gosb wedyn.

Gellir defnyddio rhybuddion i sicrhau unrhyw un o'r pedwar math o ganlyniad amgylcheddol yr ydym am ei gael (gweler uchod).

### Hysbysiadau, pwerau a gorchmynion heblaw'r rhai sydd yn Neddf GRhS

Mae pwerau ar gael eisoes yn nifer o'r systemau yr ydym yn eu gorfodi i gyflwyno hysbysiadau penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y derbynnydd yn peidio â throseddu, yn adfer amgylchedd yr effeithiwyd arno neu'n dechrau cydymffurfio â gofynion rheoliadol. Gellir defnyddio'r darpariaethau hyn lle bynnag y bo'n briodol.

Enghreifftiau o'r hysbysiadau, pwerau a gorchmynion hyn yw:

- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010 (Rheoliadau TA):
  - Hysbysiadau: Hysbysiad amrywio (rheoliad 20), Hysbysiad gorfodi (rheoliad 36), Hysbysiad atal dros dro (rheoliad 37), Hysbysiad dirymu (rheoliad 22), Hysbysiad gwahardd dŵr daear (Atodlen 22, paragraff 9);
  - Gorchymyn llys: Gorfodi gan yr Uchel Lys (rheoliad 42);
  - Pwerau adfer: Pŵer i atal neu unioni effaith llygredd ac adennill costau (rheoliad 57), Pŵer i gael gwared ar wastraff ymbelydrol (Atodlen 23, rhan 3, paragraff 4), Ffynonellau amddifad (Atodlen 23, rhan 4, paragraff 8).
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990:
  - Rhybudd i symud gwastraff (Adran 59 a 59Z).
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981:
  - Gorchymyn llys: Adfer SoDdGA sydd wedi'i ddifrodi o ganlyniad i waith na chafwyd caniatâd i'w wneud
- Deddf Coedwigaeth 1967 fel y'i diwygiwyd:
  - Hysbysiadau: Rhybudd i ailstocio coedwigoedd (adran 17A) a Hysbysiad gorfodi (adran 24)

Mae Deddf GRhS 2008 wedi creu pwerau newydd i gyflwyno hysbysiadau i ategu'r hysbysiadau presennol, yn benodol er mwyn rhoi pwerau i'w gwneud yn ofynnol bod tramgwyddwr yn atal gweithgarwch anghyfreithlon, i sicrhau bod y gweithgarwch yn cydymffurfio â rheoliadau ac i gywiro difrod sydd wedi'i wneud. Mae'r hysbysiadau newydd hyn, sef Hysbysiadau Atal, Cydymffurfio ac Adfer, wedi'u darparu er mwyn delio â sefyllfaoedd na ellir eu trafod drwy ddefnyddio'r hysbysiadau a nodwyd yn y paragraff uchod (gweler isod).

## Cosbau troseddol

### Hysbysiad Cosb Benodedig

Mae Hysbysiad Cosb Benodedig yn gosb ariannol am dramgwydd a gaiff ei osod gan y rheoleiddiwr. Os na chaiff ei thalu, gellir delio â hynny drwy erlyn mewn llys troseddol. Mae'r Hysbysiad Cosb Benodedig ar gael i ni ar gyfer nifer cyfyngedig o dramgwyddau. Ar ôl cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig, mae talu'r gosb yn rhyddhau'r derbynnydd o fod yn agored i gollfarn. Pan fydd hyn yn digwydd, cedwir cofnod am dalu'r Hysbysiad Cosb Benodedig a chaiff ei drin yn yr un ffordd â chofnod sy'n dilyn rhybudd.

Os byddwn yn gosod Hysbysiad Cosb Benodedig a bod hwnnw heb ei dalu, bydd y derbynnydd yn cael ei erlyn am y tramgwydd gwreiddiol fel arfer.

## Rhybuddiad ffurfiol

Mae rhybuddiad ffurfiol yn gyfaddefiad ysgrifenedig gan dramgwyddwr ei fod wedi cyflawni tramgwydd. Dim ond lle y byddai erlyn wedi bod yn briodol y gellir ei ddefnyddio. Yn hyn o beth mae'n wahanol i'r rhybudd ffurfiol sydd wedi'i ddisgrifio uchod, sy'n gofnod ac yn rhybudd am dramgwydd sydd wedi'i gyflawni neu y gallai gael ei gyflawni. Mae'r rhybuddiad ffurfiol yn sancsiwn troseddol ffurfiol a gaiff ei gofnodi a chaiff ei ddangos i'r llys os ceir tramgwyddo pellach. Mae'n wahanol i osod sancsiwn sifil oherwydd penderfynwyd bod yr amgylchiadau a arweiniodd at y tramgwydd yn golygu y byddai erlyn yn briodol ac, yn wir, pe byddai tramgwydd tebyg yn digwydd eto, mae'n debygol y byddai'n arwain at erlyn.

Yr amcan wrth wneud rhybuddiad ffurfiol yw atal y tramgwyddwr rhag cyflawni tramgwydd penodol ac mae'n addas mewn achosion lle y gellid bod wedi erlyn, ond bod ffactorau eraill yn erbyn hynny. Fodd bynnag, rhaid i ni ystyried y maen prawf yng Nghod Erlynwyr y Goron, sef a oes digon o dystiolaeth, a hefyd y ffactorau sy'n ymwneud â lles y cyhoedd.

Os na chaiff rhybuddiad ffurfiol ei dderbyn, byddwn yn erlyn am y tramgwydd gwreiddiol fel arfer.

## Erlyn

Mae cyfraith trosedd yn darparu ar gyfer erlyn am bob math o drosedd. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n pennu'r darpariaethau cosbi'n rhoi cryn ryddid i'r llysoedd wrth gosbi troseddwyr ac atal troseddu gan bobl eraill. Mewn rhai achosion gellir rhoi dedfryd o garchar a gosod dirwyon anghyfyngedig.

Os penderfynwn ei bod yn briodol gosod sancsiwn troseddol, byddwn yn asesu'r achos yn unol â gofynion Cod Erlynwyr y Goron cyn dechrau erlyn.

Rydym yn derbyn bod erlyn yn fater difrifol ac mai dim ond ar ôl ystyried yr holl oblygiadau a chanlyniadau y dylid ei ddechrau.

Os penderfynir mai erlyn yw'r sancsiwn mwyaf priodol, rhaid i ni fodloni'r maen prawf yng Nghod Erlynwyr y Goron, i benderfynu a oes digon o dystiolaeth a chael ein bodloni bod erlyn er lles y cyhoedd.

Wedyn rhaid i ni benderfynu a yw erlyn yn ymateb priodol neu a fyddai dewis arall yn lle erlyn yn fwy addas. Mae'r ffactorau a fydd yn effeithio ar yr asesiad hwn wedi'u disgrifio'n fanylach yn adran 3 o ddogfen ganllaw Defra/Llywodraeth Cymru ar Gosbau Sifil am dramgwyddau amgylcheddol.

**Gorchmynion gan y Llys i ategu erlyn**

Mae Cod Erlynwyr y Goron yn ei gwneud yn ofynnol ein bod yn gwneud cais am orchmynion digolledu a gorchmynion ategol, fel gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol a gorchmynion atafaelu, ym mhob achos priodol. Mae rhestr isod o'r gorchmynion ategol y caiff llys eu gwneud ar ôl cyhoeddi collfarn:

- anghymhwyso cyfarwyddwyr;
- atafaelu asedau - Deddf Elw Troseddau 2002;
- gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- fforffedu cyfarpar a ddefnyddiwyd i gyflawni'r trosedd;
- anghymhwyso rhag gyrru cerbyd;
- digolledu;
- atafaelu cerbydau;
- adfer – dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Gallwn hefyd ystyried a yw person yn gymwys i ddal rhai o'r trwyddedau dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol neu a yw'n ddymunol bod person yn parhau i gael ei gofrestru'n gludydd gwastraff neu'n frocer gwastraff.

## Cosbau Sifil Deddf GRhS

**Cyffredinol**

Mewn rhai achosion gellir sicrhau'r canlyniad gorau drwy osod sancsiwn sifil sydd ar gael dan Ddeddf GRhS.  Rhaid cofio nad yw cosbau sifil ar gael ar gyfer pob math o dramgwydd – gweler y ddogfen ar Opsiynau Ymateb i Droseddu.  Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos y mathau o amgylchiadau lle y gellid defnyddio neu dderbyn sancsiynau sifil. Nid yw'r enghreifftiau'n cynnwys yr holl fathau o amgylchiadau a allai godi.

**Cosbau Ariannol Penodedig**

Cosbau penodedig yw'r rhain a fydd yn fwyaf addas ar gyfer tramgwyddau lle nad oes dim neu bron dim effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd, fel tramgwyddau sy'n ymwneud â gwaith papur a gweinyddu.  Byddant yn fwyaf priodol lle y mae cyngor a chyfarwyddyd wedi methu â sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.  Mae Cosbau Ariannol Penodedig wedi'u gosod ar lefel o £300 ar gyfer busnesau a £100 ar gyfer unigolion, a rhoddir gostyngiad am dalu'n gynnar.  Gellir eu defnyddio ar gyfer tramgwyddau lle y mae cosb ariannol lefel isel yn fwy tebygol o newid ymddygiad y tramgwyddwr a'i gymell i gydymffurfio yn y dyfodol, er enghraifft, am fod cyngor a chyfarwyddyd wedi methu â sicrhau newid.  Gellir eu rhoi am dramgwyddau bach lle y mae angen rhyw fath o orfodi ond sydd heb fod yn ddigon difrifol, ar ôl ystyried ffactorau lles y cyhoedd, i gyfiawnhau erlyn.

## Cosbau Ariannol Amrywiadwy

Cosbau ariannol yw'r rhain y gallwn eu gosod yn uniongyrchol am dramgwyddau mwy difrifol. Byddwn yn dilyn y fethodoleg sydd wedi'i chyhoeddi (gweler Atodiad 1) i bennu lefel y Gosb Ariannol Amrywiadwy. Gellir defnyddio Cosbau Ariannol Amrywiadwy yn lle sancsiynau troseddol am dramgwyddau lle y byddai gosod cosb ariannol yn gallu newid ymddygiad y tramgwyddwr ac atal pobl eraill a/neu ddatrys y mater yn gynt. Nid oes stigma ynglŷn â Chosb Ariannol Amrywiadwy fel y mae ynglŷn â chollfarn droseddol. Gallai arbed arian i'r derbynnydd hefyd am na fydd yn rhaid iddo dalu am gynrychiolaeth, a'i alluogi i gynnig Ymrwymiad Trydydd Parti i wneud iawn i drydydd partïon sydd wedi profi effeithiau niweidiol, gan gynnwys cymunedau lleol.

Gallai hyn gynnwys achosion, er enghraifft, lle y cafwyd difrod sylweddol i'r amgylchedd ond bod ffactorau eraill yn awgrymu y byddai gosod Cosb Ariannol Amrywiadwy yn briodol. Defnyddir Cosbau Ariannol Amrywiadwy hefyd, os yw'n briodol, i ddileu mantais neu arbediad ariannol o ganlyniad i beidio â chydymffurfio. Gallwn ddewis defnyddio Cosbau Ariannol Amrywiadwy lle y mae tystiolaeth o esgeuluster a chamreoli.

---

## Hysbysiadau cydymffurfio

Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol bod y tramgwyddwr yn ailddechrau cydymffurfio. Gellir eu defnyddio mewn achos lle'r oedd y tramgwyddwr yn cydymffurfio â gofyniad o'r blaen, er enghraifft drwy gyflwyno ffurflenni'n rheolaidd, ond lle nad yw'n cyflawni ei rwymedigaethau ar hyn o bryd. Dylai'r hysbysiad sicrhau bod y tramgwyddwr yn atal gweithgareddau nad ydynt yn cydymffurfio, yn delio â'r achosion sylfaenol ac yn ailddechrau cydymffurfio. Gellir eu defnyddio lle na ddilynwyd cyngor neu gyfarwyddyd blaenorol i gymell cydymffurfio a lle y mae'n rhaid rhoi hysbysiad ffurfiol i sicrhau cydymffurfio. Gellir eu defnyddio ar y cyd â Chosb Ariannol Amrywiadwy a Hysbysiad Adfer.

---

## Hysbysiadau Adfer

Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol bod y tramgwyddwr yn cymryd camau i unioni unrhyw ddifrod a achoswyd o ganlyniad i beidio â chydymffurfio ac i ddelio ag unrhyw niwed. Gellir defnyddio'r hysbysiadau hyn lle y mae difrod wedi'i wneud i'r amgylchedd a lle y gall y tramgwyddwr bennu a chyflawni'r camau gweithredu a'r gwaith sydd eu hangen i ddelio â'r difrod. Gellir eu defnyddio lle nad yw gwaith adfer wedi'i gyflawni'n wirfoddol neu lle y credwn fod angen rhoi hysbysiad ffurfiol i'w sicrhau. Gellir eu defnyddio lle nad yw hysbysiad gorfodi arall ar gael sy'n addas a lle na ddilynwyd cyngor neu gyfarwyddyd blaenorol i gymell gwaith adfer. Gellir eu defnyddio ar y cyd â Chosb Ariannol Amrywiadwy a Hysbysiad Cydymffurfio.

---

## Hysbysiadau Atal

Mae dau fath o amgylchiad lle y gellir defnyddio Hysbysiad Atal:

- i atal gweithgarwch ar unwaith lle y mae'n achosi neu'n creu perygl arwyddocaol o achosi niwed difrifol i iechyd dynol neu i'r amgylchedd a lle y mae tramgwydd penodol yn cael neu'n debygol o gael ei gyflawni;
- i atal gweithgarwch sy'n debygol o gael ei gyflawni ar unwaith lle y bydd yn achosi neu lle y bydd yn creu perygl arwyddocaol o achosi niwed difrifol i iechyd dynol neu i'r amgylchedd, a lle y bydd y gweithgarwch sy'n debygol o gael ei gyflawni'n cynnwys neu lle y bydd yn debygol o gynnwys cyflawni tramgwydd penodol.

### Ymgymeriadau Gorfodi

Cytundebau gwirfoddol a chyfreithiol rwymol yw'r rhain a gynigir i ni gan y rheini a allai fod wedi cyflawni tramgwydd ac a dderbynnir gennym ni. Gellir derbyn Ymgymeriad Gorfodi oddi wrth berson os oes gennym sail resymol dros gredu bod tramgwydd penodol wedi'i gyflawni. Dim ond os oes gennym ddigon o sicrwydd o gyflawni telerau'r Ymgymeriad Gorfodi y byddwn yn ei dderbyn. Byddwn yn fwy tebygol o'u derbyn os cânt eu cynnig yn gynnar. Byddwn yn annhebygol o dderbyn Ymgymeriad Gorfodi os ydym eisoes wedi penderfynu bod angen erlyn mewn achos penodol. Yn yr un modd, byddwn yn annhebygol o dderbyn Ymgymeriad Gorfodi os ydym wedi dechrau trafod lefel Cosb Ariannol Amrywiadwy mewn achos penodol. Fel arfer bydd telerau'r Ymgymeriad Gorfodi yn cynnwys elfen sy'n ymwneud â gwaith adfer yn ogystal â chamau i sicrhau cydymffurfio yn y dyfodol, er enghraifft drwy fuddsoddi tymor hir mewn systemau rheoli amgylcheddol. Dylai Ymgymeriadau Gorfodi gymell gweithredwyr busnes dilys i wneud iawn, dechrau cydymffurfio a pheidio â thramgwyddo eto. Mae mwy o wybodaeth am Ymgymeriadau Gorfodi yn Atodiad 2 ac mae gwybodaeth am y tramgwyddau lle y gellir eu defnyddio yn y ddogfen ar opsiynau ar gyfer ymateb i dramgwyddau.

## Cosbau Sifil Eraill

### Cosbau Sifil Eraill

Mae rhai systemau rheoleiddio'n gosod cosbau sifil penodol am dramgwyddau penodol. Yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r UE, yng nghyswllt gweithfeydd sefydlog ac awyrennau, mae'r ddeddfwriaeth yn gosod cosbau sifil ar ffurf cosbau ariannol.

Yng Nghynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon, mae'r ddeddfwriaeth yn pennu gwahanol gosbau sifil, ar ffurf cosbau ariannol, cyhoeddi toriadau, pennu ffigur blynyddol am allyriadau, y gofyniad am ildio lwfansau ychwanegol, gosod tramgwyddwyr ar waelod y tablau cynghrair am berfformiad ac atal cyfrifon Cofrestr.

Yn y ddau gynllun uchod, mae lefel y cosbau ariannol wedi'i gosod yn y ddeddfwriaeth fel arfer. Yn achos rhai tramgwyddau, rhaid gosod cosb. Yn achos tramgwyddau eraill, rhoddir hawl i hepgor neu addasu'r gosb ond dim ond yn ôl y disgresiwn cyfyngedig sydd wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth.

Yng nghyswllt y cynllun Lwfansau Tirlenwi, mae gofyniad yn y ddeddfwriaeth am hysbysu Gweinidog Cymru am unrhyw amheuaeth am beidio â chydymffurfio.

## Sut y byddwn yn dewis yr ymateb priodol?

### Cyffredinol

Wrth ystyried sut i ymateb i dramgwydd bydd nifer o ffyrdd posibl o ymateb ar gael i ni fel arfer ar gyfer gosod sancsiynau.

Ni ellir defnyddio'r cosbau sifil yn Neddf GRhS ar gyfer pob math o dramgwydd a lle maent ar gael ni ellir defnyddio pob un o'r cosbau sifil. Mae hyn yn wir hefyd am hysbysiadau, pwerau a gorchmynion mewn deddfwriaeth heblaw Deddf GRhS: nid ydynt ar gael ar gyfer pob tramgwydd. Mae rhestr o'r holl gosbau sydd ar gael ar gyfer pob tramgwydd yn ein dogfen ar opsiynau ar gyfer ymateb i dramgwyddau.

Wrth ystyried pa sancsiwn i'w ddewis, byddwn hefyd yn ystyried a yw datganiad sefyllfa rheoliadol wedi'i gyhoeddi ar gyfer y tramgwydd hwnnw.

Mae Llywodraeth wedi darparu cyngor i ni ynghylch gosod cosbau sifil ac arfer ein disgresiwn dan Gynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon yn *Civil Penalties under the CRC Energy Efficiency Scheme Order 2010*, a byddwn yn dilyn y canllawiau hyn.

### Cosbau sifil heblaw'r rhai yn Neddf GRhS

Mewn rhai achosion, bydd yr ymateb priodol i ddiffyg cydymffurfio wedi'i bennu yn y ddeddfwriaeth berthnasol.  Mae hyn yn wir am rai o'r cosbau sifil nad ydynt yn Neddf GRhS, felly ni fydd gennym ddisgresiwn mewn achosion o'r fath a rhaid i ni osod y sancsiwn sydd wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth. Mewn achosion eraill, bydd gofyniad yn y ddeddfwriaeth i osod cosb benodol ac eithrio lle'r ydym wedi ein bodloni y gellir hepgor neu addasu'r gosb yn ôl y disgresiwn cyfyngedig a roddwyd i ni dan y ddeddfwriaeth honno.  Yma eto, rhaid i ni arfer ein disgresiwn yn unol â'r ddeddwriaeth mewn achosion o'r fath a dim ond os yw'n briodol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth y byddwn yn ystyried y ffactorau lles y cyhoedd sydd wedi'u nodi isod.

### Dewis yr ymateb iawn: gweithdrefn

Yn gyntaf byddwn yn ystyried y canlyniad yr ydym yn ceisio ei sicrhau yn unol â'n hymrwymiad i reoleiddio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.  Byddwn yn ystyried pa gamau y mae angen eu cymryd i ymateb ar unwaith er mwyn diogelu'r amgylchedd, fel yr angen i gyflwyno hysbysiad ar unwaith, ac a fydd angen cymryd camau pellach wedyn i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir. Gweler Ffigur 1 isod.

Os credwn nad yw neu na fydd cyngor a chyfarwyddyd yn sicrhau'r canlyniad sydd ei angen, a bod angen gosod rhyw fath o sancsiwn (troseddol neu sifil) i sicrhau'r canlyniad hwnnw, yna byddwn yn ystyried y ffeithiau yng nghyd-destun ffactorau lles y cyhoedd (sydd wedi'u disgrifio isod) er mwyn penderfynu pa fath o sancsiwn i'w osod.

Lle'r oedd yn rhesymol rhag-weld yr amgylchiadau a arweiniodd at y tramgwydd, a bod mesurau digonol i'w osgoi a/neu ei atal heb eu cymryd, bydd yr ymateb fel arfer yn golygu gosod sancsiwn sy'n mynd yn bellach na chynnig cyngor a chyfarwyddyd neu gyhoeddi rhybudd.

Gweler isod:

## Coeden benderfyniadau ar gyfer cosbi

| | |
|---|---|
| (a) To stop activity | (a) Atal gweithgarwch |
| (b) To restore... | (b) Adfer neu unioni |
| (c) To bring into... | (c) Gorfodi rheoleiddio |
| (d) To punish... | Cosbi a/neu atal |
| Combination... | Cyfuniad o (a) – (d) |
| What type of sanction...? | Pa fath o gosb sy'n fwyaf addas? |
| Public Interest Factors | Ffactorau Lles y Cyhoedd |
| Yes | Oes |
| No | Nac oes |
| Is there sufficient...? | A oes digon o dystiolaeth i gymryd camau gorfodi ffurfiol? |
| Yes | Ydyw |
| No | Nac ydyw |
| Does the offending...? | A yw'r tramgwydd yn galw am<br>(a) ymateb ar unwaith er mwyn adfer<br>(b) sancsiwn i sicrhau'r canlyniad a ddymunir |
| Macrory Penalty Principles | Egwyddorion Cosbi Macrory |
| Compliance Assistance | Cymorth i Gydymffurfio |
| Remedial response | Ymateb er mwyn adfer |
| Preliminary investigation... | Ymchwiliad rhagarweiniol gan gynnwys agweddau lles y cyhoedd |
| Investigation | Ymchwiliad |
| Triggers... | Sbardunau ar gyfer gorfodi |
| Incident | Digwyddiad |

| | |
|---|---|
| Breach | Toriad |
| Non-compliance | Diffyg cydymffurfio |

## Ffactorau lles y cyhoedd

### Cyffredinol

Gall pob un o'r ffactorau lles y cyhoedd amrywio yn ôl ei bwysigrwydd o achos i achos. Nid yw penderfynu ar les y cyhoedd yn fater syml o adio nifer y ffactorau o blaid ac yn erbyn gosod cosb. Byddwn yn penderfynu pa mor bwysig yw pob ffactor yn ôl yr amgylchiadau ym mhob achos ac yn ffurfio barn gyffredinol.

Fel arfer bydd ystyried y ffactorau hyn yn dangos pa sancsiwn neu sancsiynau sy'n briodol ac yn debygol o sicrhau'r canlyniad a ddymunir. Ymhlith y canlyniadau hyn y mae sicrhau cydymffurfio parhaus â'r gyfraith, gwneud iawn am ddifrod i'r amgylchedd a sicrhau mantais barhaol i'r amgylchedd ac i gymunedau lleol yr effeithiwyd arnynt a sicrhau chwarae teg i fusnesau ac eraill.

### Bwriad

Mae tramgwyddau sydd wedi'u cyflawni'n fwriadol, yn ddi-hid neu drwy esgeuluster difrifol yn fwy tebygol o arwain at erlyn. Os yw tramgwydd wedi'i gyflawni o ganlyniad i ddamwain neu gamgymeriad gwirioneddol, mae hyn yn fwy tebygol o arwain at gynnig cyngor a chyfarwyddyd, rhoi rhybudd neu ddefnyddio cosb sifil sydd ar gael.

### Rhagweladwyedd

Os oedd yn rhesymol rhag-weld yr amgylchiadau a arweiniodd at y tramgwydd, a bod mesurau digonol i'w osgoi a/neu ei atal heb eu cymryd, yr ymateb fel arfer fydd gosod sancsiwn sy'n mynd yn bellach na chynnig cyngor a chyfarwyddyd neu gyhoeddi rhybudd.

### Effaith amgylcheddol

Bydd yr ymateb yn delio â'r niwed dichonol a gwirioneddol i bobl ac i'r amgylchedd. Fel arfer, os yw tramgwydd yn nosbarth 1 neu 2 yn y Cynllun Dosbarthu Digwyddiadau Cyffredin (CICS) neu'r Cynllun Dosbarthu Cydymffurfiaeth (CCS) (neu mewn dosbarthiadau cyfatebol yn y Cynllun Dosbarthu Peryglon i Argaeau Cronfeydd Dŵr), byddem yn ystyried erlyn, rhybuddiad ffurfiol neu Gosb Ariannol Amrywiadwy.

Bydd rhai tramgwyddau wedi'u cyflawni er mwyn atal niwed i'r amgylchedd, er enghraifft tramgwyddau penodol sy'n ymwneud â thynnu dŵr. Os oedd tramgwydd o'r fath yn un a allai achosi digwyddiad yn nosbarth 1 neu 2 yn CCS neu CICS byddem fel arfer yn ystyried erlyn, rhybuddiad ffurfiol neu Gosb Ariannol Amrywiadwy.

**Natur y tramgwydd**

Os yw'r tramgwyddo'n effeithio ar ein gallu i reoleiddio'n effeithlon ac yn effeithiol, er enghraifft os bydd ein staff yn cael eu rhwystro rhag cyflawni eu dyletswyddau, os ydym yn targedu math penodol o dramgwyddo neu os rhoddir gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i ni, byddwn yn erlyn fel arfer.

**Goblygiadau ariannol**

Lle y cynigiwyd prisiau is na busnesau cyfreithlon, neu lle y mae elw wedi'i wneud neu gostau wedi'u hosgoi, fel costau a arbedwyd drwy beidio â chael trwydded, bydd hyn yn arwain fel arfer at osod Cosb Ariannol Amrywiadwy neu at erlyn. Bydd hyn yn cynnwys tramgwyddau er mwyn cael mantais ariannol.

**Effaith ataliol**

Wrth ddewis sancsiwn byddwn yn ystyried yr effaith ataliol, ar y tramgwyddwr ac ar eraill. Gallai fod yn briodol erlyn hyd yn oed am ddiffyg cydymffurfio ar raddfa fach os gallai hynny gyfrannu at effaith ataliol fwy yn gyffredinol gan fod mwy o stigma ynglŷn ag erlyn os ceir collfarn.

Os yw'n debygol y bydd y defnydd o sancsiwn yn arwain at hunangofnodi llai o dramgwyddau yn y dyfodol neu at ddiffyg cydymffurfio, gallai sancsiwn gwahanol fod yn briodol.

**Hanes blaenorol**

Byddwn yn ystyried graddau'r tramgwyddo a/neu ddiffyg cydymffurfio (gan gynnwys tramgwyddo ar safle penodol neu fethiannau cyffredinol ar ran y tramgwyddwr). Fel arfer byddwn yn dwysáu ein hymateb gorfodi os yw sancsiynau blaenorol wedi methu â sicrhau'r canlyniad a ddymunir. Er enghraifft, os defnyddiwyd rhybuddiad ffurfiol o'r blaen i ddelio â thramgwyddo ond bod hynny heb sicrhau newid ymddygiad ac atal aildramgwyddo, mae'r tramgwyddwr yn debygol o gael ei erlyn neu cyflwynir Cosb Ariannol Amrywiadwy os yw ar gael.

**Ymagwedd y tramgwyddwr**

Os yw agwedd y tramgwyddwr at y tramgwydd yn wael a/neu os yw'n amharod i gydweithredu mewn ymchwiliad neu waith adfer, byddwn yn ystyried ei erlyn fel arfer neu gyflwyno Cosb Ariannol Amrywiadwy. Ar y llaw arall, os bydd y tramgwyddwr yn cynnig manylion y tramgwydd o'i wirfodd neu drwy ddull hunangofnodi, byddwn yn ystyried hyn wrth benderfynu a fyddwn yn gosod cosb neu a fydd cyngor a chyfarwyddyd yn ddigon.

**Amgylchiadau personol**

Byddwn yn ystyried amgylchiadau personol y tramgwyddwr (er enghraifft, a oes salwch difrifol ar y tramgwyddwr). Fel arfer ni fyddwn yn erlyn person ifanc sydd wedi tramgwyddo os yw'n dramgwydd cyntaf.

Wrth ystyried gosod sancsiwn sy'n cynnwys cosb ariannol neu ofyniad i gyflawni gwaith adfer costus, byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i allu'r tramgwyddwr i dalu. Os byddwn yn gweld, ar ôl ystyried hyn, fod y gosb y tu hwnt i allu'r tramgwyddwr i dalu, byddwn yn ei haddasu fel ei bod o fewn cyrraedd y tramgwyddwr.

Fel arfer ni fyddwn yn gosod Cosb Ariannol Benodedig na Chosb Ariannol Amrywiadwy (oni bai fod elw ariannol sylweddol wedi'i wneud) ar gyfer tramgwydd os yw person yn derbyn taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) a bod disgwyl y bydd y rheini'n cael eu lleihau oherwydd methiant i gydymffurfio â'r gofynion perthnasol ar gyfer trawsgydymffurfio. Er hynny, gallem osod sancsiynau sifil neu droseddol eraill.

## Ystyriaethau eraill er lles y cyhoedd

**Tramgwyddau difrifol**

Pan fyddwn yn delio â materion sy'n amlwg yn droseddol, neu'n dangos esgeulster difrifol neu ymddygiad di-hid neu os yw tramgwydd mor ddifrifol fel bod angen clywed yr achos yn gyhoeddus, byddwn yn dewis erlyn fel arfer.

Byddwn yn ystyried erlyn fel arfer, ar ôl ystyried ffactorau lles y cyhoedd, yn yr amgylchiadau canlynol:

- lle y mae'r tramgwyddo wedi bod yn fwriadol, yn ddi-hid, neu'n cynnwys esgeuluster difrifol neu weithgarwch troseddol amlwg;
- lle y mae'r tramgwyddo wedi achosi niwed difrifol (neu y gallai achosi niwed o'r fath) i'r amgylchedd neu i bobl;
- lle y cafwyd diffyg cydymffurfio ar raddfa fawr a thros gyfnod hir â gofynion rheoliadol;
- lle y mae ein staff wedi profi aflonyddu, dychryn, gofid neu ofn trais;
- lle y gwnaethpwyd datganiad neu gofnod anwir neu gamarweiniol yn fwriadol, yn ddi-hid neu'n fwriadus;
- lle y cawsom ein rhwystro rhag cyflawni ein dyletswyddau a bod y rhwystr hwn wedi atal ymchwiliad i weithgarwch a allai fod yn droseddol neu fod tramgwyddwr wedi ffugio bod yn swyddog i Cyfoeth Naturiol Cymru; neu
- lle y mae tramgwyddwr wedi methu â chydymffurfio â Hysbysiad Atal.

**Toriadau bach**

Wrth ddelio â thoriadau bach ar amodau trwydded lle na chafwyd effaith ar yr amgylchedd, byddwn yn dewis rhoi cyngor a chyfarwyddyd fel arfer i helpu'r busnes i ailddechrau cydymffurfio.

**Tramgwyddo cyson**

Os yw tramgwyddo wedi parhau neu wedi'i ailadrodd er ein bod wedi cymryd camau gorfodi, byddwn yn dwysáu ein hymateb gorfodi fel arfer ac yn gosod sancsiwn mwy difrifol neu lym.

**Methu â chydymffurfio â hysbysiad**

Os bydd derbynnydd hysbysiad yn methu â chydymffurfio ag ef, byddwn yn chwilio am sancsiwn sy'n debygol o gosbi a/neu atal aildramgwyddo.

**Gweithredu heb drwydded, hawlen neu awdurdod arall**

Os yw person wedi methu â chael yr awdurdod angenrheidiol, yna byddwn yn fwy tebygol o osod sancsiwn sy'n debygol o gosbi a/neu atal aildramgwyddo.

**Gweithredu ar nifer o safleoedd**

Byddwn bob amser yn ystyried hanes y tramgwyddwr o ran cydymffurfio. Ni fyddwn fel arfer yn ystyried tramgwyddau a gyflawnwyd ar un arall o safleoedd y gweithredwr oni bai eu bod o fath tebyg neu'n dangos methiant cyffredinol wrth reoli ar ran y gweithredwr.

**Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol**

Byddwn yn cymryd camau gorfodi yn erbyn y personau hynny sy'n gyfrifol am y tramgwydd. Os yw cwmni'n gysylltiedig, yr arfer fydd cymryd camau gorfodi yn erbyn y cwmni os yw'r tramgwydd yn ganlyniad i weithgareddau'r cwmni. Fodd bynnag, os yw tramgwydd wedi'i gyflawni gan gorff corfforaethol a bod modd ei briodoli i gydsyniad, ymoddefiad neu esgeulustra gan unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall, gall y person hwnnw fod yn euog o dramgwydd a bydd yn agored i gamau gorfodi am y tramgwydd hwnnw.

Mewn amgylchiadau o'r fath byddwn yn cymryd camau yn erbyn y corff mwyaf priodol (corff corfforaethol a/neu unigol) yn unigol neu ar y cyd, gan ddefnyddio'r holl ddulliau gorfodi sydd ar gael i ni. Mewn achosion priodol, byddwn yn ystyried gwneud cais am anghymhwyso cyfarwyddwyr dan y Ddeddf Cwmnïau.

**Cyfuno cosbau**

Heblaw lle y mae hynny wedi'i ganiatáu'n benodol gan y ddeddfwriaeth nid yw fel arfer yn bosibl cyfuno cosbau troseddol a sifil am yr un tramgwydd.

Fe ellir cyfuno cosbau mewn rhai amgylchiadau ond bydd yn rhaid ystyried y darpariaethau perthnasol mewn deddfwriaeth yn ofalus. Er enghraifft, mae Deddf GRhS 2008 yn caniatáu i ni osod Cosbau Ariannol Amrywiadwy, Hysbysiadau Adfer a Hysbysiadau Cydymffurfio am yr un tramgwydd.

Os yw'n ymddangos bod mantais mewn defnyddio nifer o gosbau ar y cyd, byddwn yn ystyried yn ofalus i ba raddau y mae hynny'n gyfreithlon ac yn briodol. Ar gyfer systemau lle y mae gofynion cofrestru a chydymffurfio blynyddol fel y rheini sy'n cael eu creu drwy rwymedigaethau Cyfrifoldeb y Cynhyrchydd, os byddwn yn dewis ymateb drwy osod sancsiwn sifil, ceisiwn adlewyrchu'r holl fethiannau cydymffurfio drwy ddewis un sancsiwn sifil sy'n addas ar gyfer y tramgwyddau sy'n codi, yn hytrach na gosod nifer o sancsiynau am bob cyfnod cydymffurfio.

## Hysbysiadau, pwerau a gorchmynion eraill

### Hysbysiadau, pwerau a gorchmynion eraill

Mae pwerau ar gael eisoes mewn nifer o'r systemau yr ydym yn eu gorfodi i gyflwyno hysbysiadau gorfodi penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y derbynnydd yn peidio â thramgwyddo, yn adfer neu'n unioni amgylchedd yr effeithiwyd arno neu'n dechrau cydymffurfio â gofynion rheoliadol. Gellir defnyddio'r darpariaethau hyn lle bynnag y bo'n briodol.

## Gweithdrefnau ar gyfer cosbau sifil Deddf GRhS

### Cyffredinol

Mae Deddf GRhS yn rhoi cyfarwyddiadau manwl ynghylch gofynion a gweithdrefnau ar gyfer rheoleiddwyr sydd am ddefnyddio cosbau sifil. Ymhelaethir ar y rhain yn y canlynol:

- Gorchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010;

a

- Rheoliadau Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010.

Fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi'r holl ystyriaethau sy'n codi yng nghyswllt camau cyffreithiol y dewisir eu cymryd yn lle sancsiynau troseddol. Credwn fod rhaid i ni ddangos ein bod yn gweinyddu ein system sancsiynau sifil mewn ffordd deg a doeth. Felly byddwn yn gweithredu yn y ffyrdd mwyaf priodol yn ein holl weithdrefnau wrth ddefnyddio'r sancsiynau sifil hyn. Pan fydd tramgwyddwr yn derbyn Rhybudd o Fwriad ar gyfer cosb sifil byddwn yn sicrhau mesurau diogelu ar ei gyfer sy'n debyg i'r rhai ar gyfer tramgwyddwr sydd wedi'i erlyn. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried y mesurau diogelu wrth ddefnyddio cosbau gweinyddol sydd wedi'u disgrifio isod.

### Ymchwilio

Wrth ymchwilio i weld a yw tramgwydd wedi'i gyflawni neu beidio, neu a yw tramgwydd yn debygol o gael ei gyflawni, byddwn yn cymhwyso'r mesurau diogelu sydd yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.

### Asesu cryfder ein tystiolaeth

Wrth asesu ein tystiolaeth ynghylch a yw tramgwydd wedi'i gyflawni byddwn yn asesu pwysau a chryfder yr holl dystiolaeth yn ofalus i'n bodloni ein hunain ei bod yn dangos bod tramgwydd wedi'i gyflawni ar sail y prawf perthnasol. Byddwn yn ystyried unrhyw wendidau ac amwyseddau yn ein tystiolaeth ac yn ceisio canfod y gwirionedd hyd y gellir yng ngolwg unrhyw amwyseddau o'r fath. Os bydd unrhyw wrthdrawiad mewn tystiolaeth byddwn yn dehongli unrhyw ansicrwydd o blaid y cyhuddedig.

## Datgelu

Byddwn yn sicrhau bod derbynnydd y Rhybudd o Fwriad yn cael datganiad clir o'r ffeithiau sydd y tu ôl i'r sancsiwn arfaethedig neu fanylion y dystiolaeth yr ydym yn dibynnu arni fel y bydd yn deall yr achos yn ei erbyn. Byddwn yn rhoi manylion y tramgwydd honedig, dyddiad ac amser ei gyflawni ac amgylchiadau'r tramgwydd i'r graddau yr ydym yn gwybod amdanynt.

## Deunydd sydd heb ei ddefnyddio

Os bydd deunydd yn dod i'n meddiant ar unrhyw adeg sy'n tanseilio ein hachos neu'n helpu'r tramgwyddwr, byddwn yn datgelu'r deunydd hwnnw er mwyn sicrhau cyfiawnder. Os gwelwn fod deunydd sydd mor sensitif fel y dylai barnwr wneud dyfarniad ar y mater o'i ddatgelu neu ei dderbyn, yna byddwn yn ystyried a yw'n fwy priodol symud ymlaen drwy erlyn yn hytrach na thrwy osod sancsiwn gweinyddol.

### Sylwadau

Byddwn yn ystyried unrhyw sylwadau a gawn yn ofalus ac yn eu hasesu ac yn adolygu ein tystiolaeth yng ngoleuni'r sylwadau hyn. Bydd penderfyniadau i symud ymlaen â sancsiwn sifil yn wyneb sylwadau i'r gwrthwyneb yn cael eu gwneud gan gyfreithiwr a rheolwr a fydd yn adolygu'r achos ar wahân.

## Buddiannau dioddefwyr

Byddwn yn rhoi sylw i fuddiannau dioddefwyr a thrydydd partïon y mae eu buddiannau wedi cael niwed oherwydd digwyddiad amgylcheddol. Ceisiwn sicrhau, yn unol ag egwyddor 'y llygrwr sy'n talu', fod trydydd partïon yn cael eu digolledu'n briodol pan gaiff sancsiwn sifil ei osod neu Ymgymeriad Gorfodi ei dderbyn. Byddwn yn annog tramgwyddwyr i ymgysylltu â'r gymuned leol ac asesu effeithiau'r digwyddiad amgylcheddol a'u hunioni'n llwyr.

Os cawn wybodaeth gan dramgwyddwr am fwriad i ddigolledu trydydd parti, byddwn yn mynnu cael tystiolaeth, drwy lythyr cadarnhau fel arfer, fod y trydydd parti'n fodlon ar y trefniadau digolledu. Dim ond os credwn fod hynny'n briodol yn yr holl amgylchiadau y byddwn yn symud ymlaen â sancsiwn sifil, gan gynnwys Ymgymeriad Gorfodi, heb sicrhau bod ymgais clir wedi'i wneud i gytuno ar ddigolledi ad rhesymol â thrydydd parti sydd wedi profi effaith uniongyrchol.

Wrth dderbyn Ymgymeriad Gorfodi byddwn yn ei gwneud yn glir nad yw hyn yn achub y blaen nac yn niweidio hawliau trydydd partïon i ddod â'u hawliadau sifil eu hunain mewn cysylltiad â'r digwyddiad y mae'r ymgymeriad yn ymwneud ag ef.

## Hysbysiadau Adennill Costau Gorfodi

Ar gyfer y rhan fwyaf o sancsiynau sifil, gallwn gyflwyno Hysbysiadau Adennill Costau Gorfodi i fynnu tâl am ein costau hyd at adeg gosod y sancsiynau hynny. Byddwn bob amser yn ceisio adennill ein costau'n unol ag egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' a cheisiwn asesu'r costau gwirioneddol ac angenrheidiol sy'n gysylltiedig â gosod y sancsiwn a'u hadennill oddi wrth y tramgwyddwr perthnasol.

Ni ellir cyflwyno Hysbysiad Adennill Costau Gorfodi os yw Cosb Ariannol Benodedig wedi'i gosod gan nad yw'r ddeddfwriaeth yn caniatáu hyn. Os cynigir Ymgymeriad Gorfodi ni fydd hawl gennym i fynnu tâl am ein costau ond byddwn yn edrych yn fwy ffafriol ar Ymgymeriadau Gorfodi sy'n cynnig cyfrannu at y costau sy'n gysylltiedig â thramgwydd honedig ac yn derbyn yr ymgymeriad hyd at ei gyflawni dan dystysgrif gwblhau.

Er y gallem leihau swm cosb sifil am nad yw'r tramgwyddwr yn gallu talu'r swm sy'n ddyledus, rydym yn annhebygol o leihau'r swm mewn Hysbysiad Adennill Costau Gorfodi. Y rheswm am hyn yw y dylai'r Hysbysiad Adennill Costau Gorfodi adlewyrchu'r costau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â thramgwyddo a'r sancsiwn sydd wedi'i osod a bod dyletswydd arnom i ddiogelu cyllid cyhoeddus.

Mae darpariaeth ar gyfer apelio yn erbyn gosod Hysbysiad Adennill Costau Gorfodi yn yr Offerynnau Statudol perthnasol yng Nghymru ac yn Lloegr.

### Cosbau am Beidio â Chydymffurfio

Bydd gennym hawl i osod Cosb am Beidio â Chydymffurfio os bydd tramgwyddwr yn methu â chydymffurfio â Hysbysiad Cydymffurfio, Hysbysiad Adfer neu Ymgymeriad Trydydd Parti. Mae hyn yn wir hyd yn oed lle y mae Cosb Ariannol Amrywiadwy wedi'i gosod hefyd am y tramgwydd perthnasol. Byddwn yn ceisio asesu'r gost wirioneddol o gydymffurfio â'r sancsiwn gwreiddiol neu'r Ymgymeriad Trydydd Parti ac yn seilio'r Gosb am Beidio â Chydymffurfio ar y gost sydd wedi'i hasesu. Wedyn byddwn yn ystyried y rhesymau dros beidio â chydymffurfio wrth asesu pa gyfran neu ganran o'r gost honno a osodir ar ffurf Cosb am Beidio â Chydymffurfio. Os oedd y methiant i gydymffurfio'n fwriadol, yna mae'r ganran yn debygol o fod yn fwy. Os oedd y methiant wedi digwydd o ganlyniad i ffeithiau ac amgylchiadau a oedd y tu hwnt i reolaeth y tramgwyddwr, yna bydd y ganran yn llai. Gan fod unrhyw fethiant o'r fath yn debygol o ymwneud â ffeithiau penodol, byddwn yn cymhwyso meini prawf lles y cyhoedd i benderfynu pa ganran o'r gost y mae'n briodol ei thalu drwy Gosb am Beidio â Chydymffurfio.

Ar gyfer Hysbysiadau Cydymffurfio a Hysbysiadau Adfer gallwn erlyn am ddiffyg cydymffurfio ar ôl rhoi rhybudd neu gyflwyno Cosb am Beidio â Chydymffurfio. Fel arfer byddem yn dewis rhwng gosod Cosb am Beidio â Chydymffurfio ac erlyn, yn ôl union amgylchiadau'r diffyg cydymffurfio. Os gwelir, ar ôl cyflwyno Cosb am Beidio â Chydymffurfio, nad yw hynny'n arwain at gydymffurfio â'r hysbysiad gwreiddiol, fe allem erlyn am y tramgwydd gwreiddiol wedi'r cyfan.

Os cydymffurfir â gofynion y sancsiwn gwreiddiol neu'r Ymgymeriad Trydydd Parti cyn yr amser sydd wedi'i bennu ar gyfer talu'r Gosb am Beidio â Chydymffurfio, bydd y gosb yn mynd yn ddi-rym. Pe byddai cynigion cynhwysfawr i gydymffurfio â thelerau'r hysbysiad gwreiddiol yn cael eu cyflwyno'n fuan yn sgîl gosod Cosb am Beidio â Chydymffurfio, byddem yn ystyried y fantais o ostwng swm y gosb.

Mae'r Offerynnau Statudol perthnasol ar gyfer Sancsiynau Sifil yng Nghymru ac yn Lloegr yn darparu hawl apelio yn erbyn gosod Cosb am Beidio â Chydymffurfio.

## Apeliadau

### Cyffredinol

Fel arfer gellir apelio yn erbyn camau gorfodi (a chosbau'n benodol) un ai drwy broses y llys troseddol neu o ganlyniad i ddarpariaethau penodol ar gyfer apelio.

Bydd ein hysbysiadau'n nodi'r hawliau apelio sy'n berthnasol ar gyfer pob sancsiwn neu ddarpariaeth.

Wrth ystyried unrhyw fath o apêl yn erbyn camau gorfodi neu sancsiynau bydd yn briodol fel arfer fod y derbynnydd yn cael cyngor cyfreithiol annibynnol.

## Apeliadau yn erbyn cosbau Deddf GRhS

Ni ellir gosod cosbau Deddf GRhS yn yr amgylchiadau canlynol:

- lle nad yw Deddf GRhS yn pennu bod sancsiwn ar gael ar gyfer y tramgwydd penodol;
- lle nad oes sancsiwn penodol yn Neddf GRhS ar gyfer y tramgwydd hwnnw;
- lle nad yw tramgwydd wedi'i gyflawni;
- lle nad yw'n bosibl profi'r tramgwydd y tu hwnt i bob amheuaeth resymol; neu
- lle y mae sylwadau'n dangos bod amddiffyniad ar gael.

Mae cyfeiriadau at dramgwyddau penodol yn golygu'r rheini sydd wedi'u pennu dan Orchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010, a Rheoliadau Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru).

Lle y gellir gosod un o sancsiynau Deddf GRhS, bydd ein hysbysiadau'n nodi'r hawliau apelio. Mae'r rhain yn gynhwysfawr iawn. Mae'r Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi cyhoeddi ffurflenni a chanllawiau ar gyfer apeliadau o'r fath ac mae'r rhain ar gael ar ei wefan (http://www.tribunals.gov.uk/Tribunals/Firsttier/generalregulatory.htm).

Yn gyffredinol, mae'r seiliau dros apelio yn erbyn gosod un o sancsiynau Deddf GRhS fel a ganlyn:

- bod y penderfyniad wedi'i seilio ar wall ffeithiol;
- bod y pendefyniad yn anghywir dan y gyfraith;
- bod y penderfyniad yn afresymol;
- bod y swm yn afresymol;
- unrhyw reswm arall neu, yng Nghymru, unrhyw reswm tebyg arall.

Mae'r rhain wedi'u hegluro'n fwy manwl yn Atodiad 3 isod.

## Darpariaethau digolledu – Hysbysiadau Atal

**Darpariaethau digolledu – Hysbysiadau Atal**

Lle y mae Hysbysiad Atal wedi'i gyflwyno rhaid i ni ddigolledu person os bydd y person hwnnw, o ganlyniad i gyflwyno'r hysbysiad neu wrthod tystysgrif gwblhau, wedi dioddef colled, ac:

- os byddwn yn tynnu'n ôl neu'n diwygio'r Hysbysiad Atal am fod y penderfyniad i'w gyflwyno'n afresymol neu fod unrhyw gam a bennwyd yn yr hysbysiad yn afresymol;
- os ydym wedi torri ein rhwymedigaethau statudol;
- os bydd y person yn apelio'n llwyddiannus yn erbyn yr Hysbysiad Atal a bod y Tribiwnlys yn cael bod cyflwyno'r hysbysiad wedi bod yn afresymol; neu
- os bydd y person yn apelio'n llwyddiannus yn erbyn gwrthod Tystysgrif Gwblhau a bod y Tribiwnlys yn cael bod ein gwrthodiad yn afresymol.

Yn yr amgylchiadau hyn bydd y digollediad yn talu am golled gan gynnwys costau eithriadol o ganlyniad i gyflwyno'r Hysbysiad Atal (er enghraifft, cyngor cyfreithiol neu arbenigol).

Os yw person yn dymuno hawlio digollediad, rhaid iddo wneud hynny drwy anfon llythyr i'r cyfeiriad sydd ar yr Hysbysiad Atal sydd wedi'i gyflwyno iddo.

Os bydd unrhyw ddadl ynghylch a ddylid talu digollediad, neu ynghylch swm unrhyw ddigollediad, rhaid ei hatgyfeirio ar gyfer cymrodeddu at un cymrodeddwr sydd wedi'i benodi drwy gytundeb rhwng partïon y ddadl neu, os na cheir cytundeb, bydd gan berson hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn ein penderfyniad i beidio â darparu digollediad neu yn erbyn swm y digollediad.

Nid yw'r cynllun digolledu'n niweidio hawliau'r person i geisio iawn drwy'r Ombwdsmon, adolygiad barnwrol neu ymgyfreitha sifil.

## Dogfennau cysylltiedig

### Dolennau

Polisi Gorfodi ac Erlyn

Dogfen Opsiynau Ymateb i Dramgwyddau

# Atodiad 1: Methodoleg y Gosb Ariannol Amrywiadwy

## 1. Egwyddorion cyffredinol

### Pryd y cawn ddefnyddio Cosb Ariannol Amrywiadwy (CAA)

Dan ein Datganiad ar Orfodi a Chosbau a'n Canllawiau ar Orfodi a Chosbau, cawn ddefnyddio Cosbau Ariannol Amrywiadwy ar gyfer tramgwyddau penodol yn enwedig lle y byddai gosod cosb ariannol yn gallu newid ymddygiad y tramgwyddwr ac atal eraill rhag tramgwyddo.  Gall hyn gynnwys, er enghraifft, achosion lle y cafwyd niwed sylweddol i'r amgylchedd a oedd yn galw am waith adfer ond lle y mae hefyd yn briodol gosod CAA.  Defnyddir Cosbau Ariannol Amrywiol hefyd i ddileu mantais neu arbediad ariannol adnabyddadwy o ganlyniad i beidio â chydymffurfio, os yw'n briodol.  Gallem eu defnyddio hefyd lle y mae tystiolaeth o esgeuluster a chamreoli, ond nad yw hynny'n ddigon i gyfiawnhau erlyn.

## 1.2 Canllawiau Llywodraeth

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer rheoleiddwyr ynghylch cyfrifo Cosbau Ariannol Amrywiadwy (canllawiau Defra/Llywodraeth Cymru a chanllawiau ar Ddeddf GRhS).

Mae'r fethodoleg hon yn dilyn y canllawiau hynny. Mae'n bwysig nodi:

- bod rhaid cyfrifo Cosbau Ariannol Amrywiadwy fesul un ar gyfer pob tramgwydd a bod rhaid pennu dechreubwynt yr elfen ataliol (gweler isod) ar wahân ar gyfer pob tramgwydd.
- Os cyflawnwyd mwy nag un tramgwydd, y ceir gosod CAA ar wahân yr un pryd ar gyfer pob tramgwydd.
- Na chaiff cyfanswm y tâl dan un CAA fod yn fwy na £250,000.

## 1.3 Trosolwg ar elfennau Cosb Ariannol Amrywiadwy

Mae tair elfen i Gosbau Ariannol Amrywiadwy:

i. Elfen budd ariannol – i ddileu mantais ariannol y tramgwydd gan gynnwys:
- costau a osgowyd fel ffioedd trwydded;
- arbedion ar weithredu o beidio â chydymffurfio e.e. cyfarpar, staff, ymgynghorwyr;
- mantais ariannol o weithredu ar gostau is.

ii. Elfen ataliol – wedi'i seilio ar un o dri dechreubwynt sy'n cael ei bennu gan nodweddion y tramgwydd, a gaiff ei addasu wedyn yn ôl y ffactorau gwaethygol a lliniarol. Y tri dechreubwynt yw:

a. y budd ariannol o (i)

b. y costau y mae angen eu talu i gydymffurfio â hysbysiad adfer

c. y ddirwy droseddol fwyaf y gallai llys ynadon ei gosod am y tramgwydd penodol lle nad oes gwaith adfer sylweddol na budd ariannol sylweddol.

Caiff yr elfen ataliol ei hadio at elfen y budd ariannol er mwyn:

- newid ymddygiad y troseddwr;
- bod yn ataliad cyffredinol i bobl eraill er mwyn sicrhau gwell cydymffurfio drwyddo draw;
- rhoi sicrwydd i'r rheini sy'n cydymffurfio nad yw'r rheini sydd heb gydymffurfio wedi cael unrhyw fantais o dramgwyddo.

iii. Elfen didynnu – i leihau'r gosb er mwyn darparu ar gyfer rhai o'r costau y mae'r tramgwyddwr wedi'u codi.

| |
|---|
| Y cyfrifiad sylfaenol yw:<br><br>**(Budd ariannol + Ataliad) – Didyniadau = CAA**<br><br>Lle y mae:<br><br>Ataliad = £ (Dechreubwynt x Cyfanswm y ffactorau gwaethygol) – £ (Cyfanswm y ffactorau lliniarol) |

## 1.4 Byddwn yn cyfrifo'r Gosb Ariannol Amrywiadwy drwy ddilyn y camau hyn:

- Byddwn yn asesu ac yn amcangyfrif pob dechreubwynt ar gyfer y tramgwydd:

a. y budd ariannol a gafodd y tramgwyddwr drwy gyflawni'r tramgwydd;

b. y costau y mae angen eu talu i gydymffurfio â hysbysiad adfer;

c. y ddirwy droseddol fwyaf y gallai llys ynadon ei gosod am y tramgwydd penodol lle nad oes gwaith adfer sylweddol na budd ariannol sylweddol.

- Byddwn yn dewis y dechreubwynt ar gyfer yr elfen ataliol ar sail natur y tramgwydd. Fel arfer byddwn yn dewis yr un sydd â'r gwerth uchaf, oni bai fod sail resymol dros ddewis gwerth is.

- Byddwn yn asesu'r ffactorau gwaethygol a'r ffactorau lliniarol ac yn eu defnyddio i addasu'r dechreubwynt a ddewiswyd i roi cyfanswm y Gosb Ariannol Amrywiadwy. Gallai rhai ffactorau gwaethygol ddangos y dylid erlyn yn hytrach na defnyddio sancsiwn sifil fel Cosb Ariannol Amrywiadwy.

- Byddwn yn ystyried didyniadau, y costau a gododd y tramgwyddwr y gellir eu hystyried er mwyn lleihau'r gosb.

- Byddwn yn cyfrifo'r Gosb Ariannol Amrywiadwy ar gyfer y Rhybudd o Fwriad y mae'n rhaid i ni ei gyflwyno i'r tramgwyddwr. Byddwn yn cynnwys y swm terfynol a fydd yn daladwy, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd, yn yr Hysbysiad Terfynol.

Mae mwy o fanylion am bob un o'r elfennau hyn yn adran 2.

## 2. Cyfrifo ac amcangyfrif yr elfennau

### 2.1 Amcangyfrif budd ariannol:

Defnyddir Cosbau Ariannol Amrywiadwy i ddileu unrhyw fantais ariannol uniongyrchol o gyflawni tramgwydd gan gynnwys:

- costau a osgowyd;
- arbedion gweithredu; ac (os yw'n berthnasol)
- unrhyw elw a gafwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r tramgwydd.

Ni fydd bob amser yn bosibl pennu budd ariannol mewn achos. Er enghraifft, mewn rhai achosion sy'n ymwneud â llygredd dŵr, gellir cael atebolrwydd caeth am yr achos ond ychydig iawn o fantais amlwg. Er hynny, hyd yn oed yn yr achosion hyn gellir osgoi rhai costau, er enghraifft, drwy beidio â gosod a chynnal larymau, neu beidio â gosod byndiau digonol neu fesurau diogelwch. Ymchwilir i'r methiannau hyn a bydd unrhyw gostau a osgowyd yn cael eu cyfrif yn fudd ariannol.

Yn y blychau isod rydym yn disgrifio sut y gallem bennu budd ariannol.

| **Costau a osgowyd:** |
| --- |
| • Er na ellir pennu'r budd ariannol ym mhob achos, fe fyddai'n cynnwys yr holl gostau a osgowyd os gellir eu pennu a'u hamcangyfrif. |
| • Asesir y costau hyn, a allai gynnwys ffioedd, cofrestriadau, trethi (er enghraifft, treth tirlenwi, oni bai fod yr awdurdod perthnasol yn cymryd camau i'w hadennill), a gwneir amcangyfrif ohonynt ac os bydd dadl yn eu cylch neu os bydd angen fel arall, byddwn yn gofyn am dystiolaeth yn eu cylch gan y tramgwyddwr. |

**Arbedion gweithredu:**

- Byddwn yn asesu ac yn amcangyfrif costau gweithredu fel rhai ar gyfer gweinyddu, staff, ymgynghorwyr a chostau sefydlu ac os bydd dadl yn eu cylch neu os bydd angen fel arall, byddwn yn gofyn am dystiolaeth yn eu cylch gan y tramgwyddwr.

- Byddwn yn seilio unrhyw gostau sefydlu perthnasol un ai ar gostau sefydlu cyfredol neu ar gostau ar adeg y tramgwyddo, pa rai bynnag yw'r uchaf.

- Bydd hyn yn atal unrhyw fantais a fyddai ar gael drwy ohirio costau gweithredu nes bydd technolegau ac arferion gweithredu'n rhatach, neu drwy gael mantais o log ar symiau sydd heb eu gwario neu wahaniaethau treth.

**Manteision ariannol eraill:**

- Gallwn asesu agweddau eraill ar y budd ariannol os yw'r rhain yn amlwg neu os gellir eu cyfrifo neu eu hamcangyfrif yn rhwydd, a lle y byddai eu dileu'n delio ag unrhyw fantais gystadleuol a gafodd tramgwyddwyr o ganlyniad uniongyrchol i'r tramgwydd.

- Gall hyn gynnwys yr enillion o arian sydd heb ei fuddsoddi mewn peiriannau, cyfarpar neu hyfforddiant, neu elw a gafwyd o ganlyniad i beidio â chydymffurfio.

- Gellir cael mantais o'r fath, er enghraifft, os oes cysylltiad annatod rhwng y busnes a'r tramgwydd, fel rhedeg cyfleuster rheoli gwastraff heb gael trwydded, a lle na fyddai wedi bod yn bosibl sefydlu'r busnes a'i barhau heblaw drwy dramgwyddo.

- Lle bynnag y bo modd, byddwn yn seilio'r cyfrifiad o enillion ariannol ar dystiolaeth.

- Mae pwerau ar gael dan Atodlen 2 1(6) i Orchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol 2010 ac Atodlen 2 1(5) i Orchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010 i fynnu bod tramgwyddwyr yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i bennu CAA briodol, gan gynnwys gwybodaeth ariannol.

- Os methant â chydymffurfio â'r gofyniad hwn, byddwn yn amcangyfrif y budd ariannol ar sail y dystiolaeth sydd gennym, neu ar sail achosion tebyg neu arferion diwydiant.

- Bydd cyfle hefyd i dramgwyddwyr gyflwyno sylwadau yng ngham y Rhybudd o Fwriad.

## 2.2 Dewis y dechreubwynt ar gyfer yr elfen Ataliol

Bydd y dewis yn dibynnu ar nodweddion y tramgwydd. Dylid cyfeirio ym mhob achos at y Canllawiau ar Orfodi a Chosbau.

Er mwyn adlewyrchu difrifoldeb y tramgwydd, y dechreubwynt ar gyfer pennu'r elfen ataliol fydd yr un mwyaf perthnasol o ystyried natur y tramgwydd. Mae'n debygol mai hwn fydd y dechreubwynt sydd â'r gwerth uchaf.

Penderfynir pob achos ar sail ei rinweddau, gan arfer disgresiwn mewn achosion fel y rheini lle nad yw'n bosibl gwneud ond ychydig o waith adfer, er bod difrod difrifol i'r amgylchedd (fel bod costau'n isel), neu achosion lle y byddai nifer mawr o dramgwyddau cymharol fach neu dechnegol yn gallu arwain at gosb anghymesur pe byddai'r uchafswm statudol yn cael ei ddefnyddio fel dechreubwynt.

Rydym yn cydnabod bod gwahaniaethau ym mhob achos ac y byddant yn aml yn cynnwys nifer o elfennau. Felly ni allwn bennu'r union amgylchiadau ar gyfer defnyddio pob dechreubwynt nac ar gyfer pa fath o dramgwydd y defnyddir dechreubwynt penodol. Er hynny, gellir pennu natur gyffredinol y tramgwyddau, ac felly'r dewis o ddechreubwynt, fel a ganlyn.

## 2.3 Achosion lle y mae budd ariannol yn brif nodwedd

Bydd hyn yn cynnwys achosion lle y mae tramgwyddo'n creu budd ariannol sylweddol o'i gymharu â'r costau adfer os oes rhai (lle y mae hyn yn ofynnol yn yr hysbysiad) neu'r uchafsymiau statudol sydd ar gael. Er mai amcangyfrif gennym ni fydd hwn yn y diwedd, dylid ei bennu ar sail tystiolaeth a gafwyd yn uniongyrchol oddi wrth y tramgwyddwr neu dystiolaeth oddi wrth gymdeithasau diwydiant a chyrff proffesiynol, os yw ar gael, er mwyn cael elfen o sicrwydd.

Enghraifft: Bydd methiant i gofrestru dan Reoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Deunydd Pacio) yn golygu fel arfer fod tri thramgwydd wedi'u cyflawni ym mhob blwyddyn pan na chofrestrwyd. Un o'r tramgwyddau hyn fydd methu â phrynu Nodiadau Adennill Gwastraff Deunydd Pacio hyd at werth £10,000, er enghraifft. Yr uchafswm statudol ar gyfer y tramgwydd yw £5,000. Yn yr enghraifft hon, mae'r tramgwydd yn un lle y mae budd ariannol yn brif nodwedd, a'r budd ariannol hefyd yw'r dechreubwynt sydd â'r gwerth mwyaf. Felly budd ariannol fydd y sail ar gyfer cyfrifo'r elfen ataliol ar gyfer y tramgwydd hwn.

Sylwer: Ni fydd costau gwaith adfer yn gymwys fel arfer mewn achosion o'r natur hon.

## 2.4 Achosion lle y mae costau adfer yn brif nodwedd

Hwn fydd y dechreubwynt ar gyfer cyfrifo'r elfen ataliol lle y mae difrod amgylcheddol yn arwain at gostau o ganlyniad i roi Hysbysiad Adfer[1] a'r costau hynny'n sylweddol o'u cymharu ag unrhyw fudd ariannol neu'r uchafsymiau statudol sydd ar gael.

**Costau adfer**

- Wrth ddefnyddio costau adfer yn ddechreubwynt, yr unig gostau sy'n berthnasol yw'r rheini sy'n gysylltiedig ag adfer y sefyllfa i'r hyn a fuasai pe na byddai'r tramgwydd wedi'i gyflawni. Nid yw'n cynnwys adfer neu atgyweirio seilwaith. Wrth gyfrifo'r gosb ni fyddwn yn cynnwys costau a godwyd gennym ni wrth adfer yr amgylchedd[2].

- Ni fyddwn yn cynnwys costau a godwyd gan y tramgwyddwr o'i wirfodd gan y byddai hyn yn anghymhelliad i wneud gwaith adfer gwirfoddol ac i wneud iawn â thrydydd partïon sydd wedi profi effaith niweidiol. Er hynny, gellir eu cynnwys yn yr elfen didyniadau.

- Rhaid pennu'r costau adfer sy'n gysylltiedig â'r hysbysiad yn eithaf manwl, un ai am fod y gwaith adfer wedi'i gyflawni'n barod (lle y mae hyn wedi'i bennu mewn Hysbysiad), neu lle y maent yn ganlyniad i'r fanyleb mewn Hysbysiad ac wedi'u prisio (a'r costau hyn wedi'u derbyn) gan y tramgwyddwr.

- Ni fyddwn yn ystyried halogi hanesyddol. Dim ond costau y gallwn ddangos eu bod yn ganlyniad i gyflawni'r tramgwydd y byddwn yn eu hystyried.

- Yn y lle cyntaf byddwn yn dibynnu ar y costau sydd wedi'u hasesu ar gyfer yr hysbysiad adfer.

- Os nad yw costau wedi'u hasesu ar gyfer yr hysbysiad adfer, byddwn yn seilio lefel yr asesiad ar y tebygolrwydd y bydd canlyniad yr asesiad yn cael effaith sylweddol ar lefel y gosb.

- Nid gwaith syml fydd cyfrifo costau adfer ym mhob achos oherwydd gallai alw am ddefnyddio methodolegau prisio economaidd. Ni fydd yn ymarferol cynnal astudiaethau prisio unigol ar gyfer pob achos. Fel arfer byddwn yn defnyddio methodoleg asesu raddol sy'n symud o asesu ansoddol a meintiol at asesu ariannol yn ôl yr angen.

[1] Yma mae hysbysiad adfer yn cynnwys Hysbysiad Adfer Deddf GRhS, Hysbysiadau Gwaith Gwrth-lygredd dan a161A o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 neu Rybudd i Symud Gwastraff dan a59 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd.

[2] Yr unig ffordd i adennill costau a godwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru am waith adfer yw drwy hysbysiad statudol penodol ar gyfer adennill costau (e.e. a161 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991) lle y mae pŵer perthnasol ar gael, ac ni fyddant yn cael eu cynnwys wrth gyfrifo'r gosb.

- Os oes math penodol o effaith a allai fod yn ddigon sylweddol i effeithio ar lefel y gosb, dylid ei disgrifio'n gyntaf ar sail maint ac wedyn, os yw'n bosibl, ar sail ariannol. Defnyddir canllawiau'r Llywodraeth ar brisio i bennu'r swm.

Enghraifft: Mae llygredd olew difrifol a hirsefydlog sy'n effeithio ar ran o nant leol sy'n sawl cilometr o hyd yn cael ei olrhain yn y diwedd i safle cwmni. Gwelir mai ffynhonnell y llygredd yw cyfleuster storio olew diwydiannol sydd heb ei fyndio. Amcangyfrifir mai'r budd ariannol, sef y gost o adeiladu bwnd o gwmpas y safle, yw ychydig gannoedd o bunnoedd, ond wrth baratoi i gyflwyno hysbysiad adfer rydym yn amcangyfrif mai £75,000 yw'r costau adfer. Felly mae'n amlwg mai prif nodwedd yr achos hwn yw cost y gwaith adfer yn hytrach na'r budd ariannol. Mae'r asesiad o'r ddirwy droseddol fwyaf yn llai na'r asesiad o'r costau adfer, felly ni fyddwn yn ei ddefnyddoo yn yr achos hwn. Felly byddwn yn defnyddio'r costau adfer yn ddechreubwynt i gyfrifo'r elfen ataliol. Wedyn byddwn yn cymhwyso ffactorau gwaethygol a lliniarol ac yn didynnu costau perthnasol y tramgwyddwr ar ôl eu hasesu.

## 2.5 Achosion lle y defnyddir y ddirwy droseddol fwyaf y gallai llys ynadon ei gosod am y tramgwydd penodol

Hwn fydd y dechreubwynt ar gyfer cyfrifo'r elfen ataliol lle y mae budd ariannol a/neu gostau adfer un ai'n absennol, yn amhosibl eu cadarnhau â sicrwydd neu heb fod yn nodwedd bwysig yn yr achos (h.y. lle y maent yn llai nag uchafswm statudol y gosb sydd ar gael).

Hon fydd y gosb fwyaf y gall llys ynadon ei gosod am y tramgwydd a gyflawnwyd. Rhaid i ni gael ein bodloni bod gennym dystiolaeth i brofi pob tramgwydd penodol y tu hwnt i bob amheuaeth resymol, a byddwn yn gofalu ein bod yn gwahaniaethu rhwng tramgwydd parhaus unigol (fel methiant i godi trwydded) a methiannau cyson dros gyfnod (fel methiant i ddarparu datganiadau blynyddol).

Enghraifft: Am fod y tramgwyddwr wedi methu â chofrestru, mae cyfres o dramgwyddau diannod (cosb o £5,000 yr un) wedi'u cyflawni dros gyfnod o chwe blynedd. Ychydig iawn o fudd ariannol a gaiff y tramgwyddwr o'r tramgwyddau, fodd bynnag, ac nid oes effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd, felly nid oes costau adfer. Prif nodwedd y tramgwyddo yw nifer a pharhad y tramgwyddau, felly y dechreubwynt ar gyfer yr elfen ataliol ym mhob CAA (oherwydd byddai un CAA ar gyfer pob tramgwydd, os rhoddir mwy nag un) fydd y ddirwy droseddol fwyaf. Wedyn byddwn yn cymhwyso ffactorau gwaethygol a lliniarol ac yn didynnu costau perthnasol y tramgwyddwr ar ôl eu hasesu.

## 3. Ffactorau gwaethygol a lliniarol

Ar ôl dewis y dechreubwynt, caiff ei addasu wedyn i adlewyrchu amgylchiadau penodol yr achos ar ôl dadasoddi'r nodweddion gwaethygol a lliniarol.

Asesir y nodweddion gwaethygol a rhoddir sgôr amdanynt, a chaiff y sgorau eu hadio at ei gilydd i roi ffactor lluosi. Caiff hwn ei luosi â'r dechreubwynt i ddangos y gosb waethygol. Ni chaiff y lluosydd hwn fod yn fwy na phedair gwaith gymaint â'r dechreubwynt.

Yn yr un modd, bydd nodweddion lliniarol yn lleihau'r elfen ataliol. Asesir nodweddion lliniarol a phennir canran ar eu cyfer a chânt eu hadio at ei gilydd wedyn i roi canran gyfan y gostyngiad yn y gosb waethygol. Fel arfer bydd cymhwyso'r nodweddion lliniarol yn caniatáu gostyngiad o hyd at 80% yn yr elfen ataliol, ond gall y system ganiatáu gostyngiad o 100% mewn amgylchiadau eithriadol.

Mae'r ffactorau gwaethygol a lliniarol yn cael eu cyfrifo fel a ganlyn:

**Cyfanswm y ffactorau gwaethygol** = Swm y ffactorau gwaethygol unigol sydd wedi'u hasesu (gyda chyfanswm uchaf o 4)

**Cyfanswm y ffactorau lliniarol** = Swm y ffactorau lliniarol unigol sydd wedi'u hasesu (Canran o'r dechreubwynt)

**Cyfanswm y lliniaru** = £ (Dechreubwynt x Cyfanswm y ffactorau gwaethygol) x Cyfanswm y ffactorau lliniarol

### 3.1 Ffactorau gwaethygol

Rhoddir sgôr am y ffactorau canlynol gan ddefnyddio graddfeydd sydd wedi'u disgrifio dan bob ffactor. Caiff y sgorau hyn eu hadio at ei gilydd. Y sgôr uchaf fydd 4. Mae '0' yn dangos bod y ffactor yn gwbl absennol. Fel arfer rhaid cael mwy nag un ffactor cyn gallu cymhwyso'r lluosydd cyfansymiol uchaf.

### 3.2 Beiusrwydd

Asesir beiusrwydd ar raddfa symudol i sicrhau tegwch â'r tramgwyddwr ac i wahaniaethu rhwng tramgwyddau. Dewisir y sgôr fwyaf addas am y ffactor hwn o'r raddfa isod o rifau cyfan yn ôl amgylchiadau'r achos.

| Lluosydd i'w gymhwyso | Eglurhad |
|---|---|
| x 3 | Tramgwydd bwriadol.  Fodd bynnag, rhagwelir mai erlyn fydd y canlyniad fel arfer am weithredoedd bwriadol. |
| x 2 | Tramgwydd di-hid.  Am weithredoedd sydd wedi'u cyflawni'n fwriadol heb ofal am y canlyniadau na/neu'r niwed amgylcheddol sy'n dilyn. |
| x 1 | Tramgwydd esgeulus.  Am dramgwyddau a gyflawnwyd lle'r oedd y tramgwyddwr mewn sefyllfa i rwystro neu atal y tramgwydd ond ei fod wedi methu ag adnabod y perygl neu ofalu bod y gweithdrefnau cywir ar waith. |
| x 0.1 | Ychydig neu ddim beiusrwydd.  Am dramgwyddau sy'n digwydd o ganlyniad i ddamwain wirioneddol yn hytrach na diffyg mesurau ataliol rhagweledol, neu lle'r oedd mesurau a gweithdrefnau ataliol digonol ar waith ond bod digwyddiadau eithriadol yn drech na nhw. |

### 3.3 Hanes

Bydd tramgwyddau blaenorol yn berthnasol i'r tramgwydd presennol.  Gallai'r rhain fod yn gysylltiedig â'r safle dan sylw (er enghraifft, torri amodau trwydded lle'r oedd amodau tebyg wedi'u torri o'r blaen ar y safle hwnnw) neu gallent ymwneud â'r tramgwyddwr: os felly, gallent ddangos bod methiannau ar ran rheolwyr neu gorfforaethau.

Dewisir y sgôr fwyaf addas am y ffactor hwn o'r raddfa isod o rifau cyfan yn ôl amgylchiadau'r achos.

| Lluosydd i'w gymhwyso | Eglurhad |
|---|---|
| x 3 | Collfarn, hysbysiad Atal neu hysbysiad Atal Dros Dro wedi'i roi o'r blaen am dramgwyddau a ddigwyddodd o fewn y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, rhagwelir mai erlyn fydd y canlyniad fel arfer mewn achosion o'r fath. |
| x 2 | Rhybuddiad ffurfiol, Cosb Ariannol Amrywiadwy neu hysbysiad o fath arall (heblaw hysbysiadau Atal neu Atal Dros Dro) wedi'i roi o'r blaen am dramgwyddau a ddigwyddodd o fewn y ddwy flynedd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys addefiadau cynharach am dramgwyddau blaenorol, ymddygiad tramgwyddus dros gyfnod hir a hysbysiadau Deddf GRhS. |
| x 1 | Rhybuddion ysgrifenedig neu Gosbau Ariannol Penodedig wedi'u rhoi o'r blaen, llythyr rhybuddio neu bump neu ragor o rybuddion safle am dramgwyddau a ddigwyddodd o fewn y ddwy flynedd diwethaf. |
| x 0 | Dim tramgwyddau blaenorol. Y ffactor yn absennol. |

## 3.4 Agwedd

Mae'r ffactor hwn yn disgrifio agwedd y tramgwyddwr at y tramgwydd a'r camau a gymerodd ar ei ôl. Mae'n cynnwys diffyg gweithredu prydlon i ddileu neu leihau'r perygl o ddifrod o ganlyniad i beidio â chydymffurfio â rheoliadau a diffyg cydweithredu â ni wrth ymchwilio i'r tramgwydd, asesu'r difrod neu asesu Cosb Ariannol Amrywiadwy gymesur.

Dewisir y sgôr fwyaf addas am y ffactor hwn o'r raddfa isod o rifau cyfan yn ôl amgylchiadau'r achos.

| Lluosydd i'w gymhwyso | Eglurhad |
|---|---|
| x 3 | Er bod y tramgwyddwr yn gwybod am y tramgwydd, ni chymerodd gamau i atal y tramgwydd neu i atal difrod arwyddocaol/difrifol i'r amgylchedd. Gwrthododd gydweithredu yn yr ymchwiliad, asesiad neu waith adfer. Byddai ffactorau o'r mathau hyn yn cyfiawnhau erlyn fel arfer ond byddwn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd, er enghraifft ar gyfer delio â chwmnïau lle y mae'n anodd asesu gwybodaeth gorfforaethol. |
| x 1.5 | Cymerwyd camau rhannol, annigonol neu anghyflawn i atal y tramgwydd ac atal difrod rhag digwydd neu barhau a/neu fe gafwyd rhywfaint o gydweithredu ond nid oedd hyn yn llawn nac yn wirfoddol. Er enghraifft, lle y byddai gweithredu prydlon wedi atal y tramgwyddo rhag parhau neu wedi atal difrod rhag digwydd neu barhau. Lle'r oedd yn rhaid mynnu bod y tramgwyddwr yn rhoi gwybodaeth yn hytrach na'i fod yn ei chynnig, lle'r oedd oedi wrth gynnig cymorth neu gydweithrediad neu lle'r oedd y cymorth neu'r cydweithrediad yn rhannol yn unig. |
| x 0 | Gweithredu prydlon sy'n atal y tramgwyddo ar unwaith, cydweithredu llawn a diffuant â'r ymchwiliad a'r gwaith adfer. Y ffactor yn absennol, er enghraifft lle y mae mesurau adfer, hyfforddiant neu newidiadau mewn prosesau neu bolisi'n digwydd ar unwaith, neu lle y mae cydweithrediad llwyr yn yr ymchwiliad a/neu waith adfer. |

## 3.5 Rhagweladwyedd a pherygl o niwed amgylcheddol

Mae'r ffactor hwn yn ystyried a fyddai'r tramgwyddwr wedi gallu rhag-weld y tramgwyddo neu unrhyw niwed amgylcheddol a gafwyd o ganlyniad a pha mor effeithiol y rheolwyd y risgiau amgylcheddol a'u canlyniadau. Os gellir asesu'r perygl o niwed neu'r effaith wirioneddol yn fanwl gywir, byddwn yn defnyddio ein systemau i'w hasesu, gan gynnwys y Cynllun Dosbarthu Digwyddiadau Cyffredin (CICS)/Cynllun Dosbarthu Cydymffurfiaeth (CCS). Mae'n bwysig cofio bod rhaid i'r sgorau CCS fod yn rhai terfynol sy'n adlewyrchu'r effaith ddichonol/gwirioneddol, nid yn asesiadau dechreuol.

Felly mae'r ffactor hwn yn ystyried unrhyw effeithiau gwirioneddol sy'n dilyn y tramgwydd. Dewisir y sgôr fwyaf addas am y ffactor hwn o'r raddfa isod o rifau cyfan yn ôl amgylchiadau'r achos.

| Lluosydd i'w gymhwyso | Eglurhad |
|---|---|
| x 4 | Lle'r oedd y tramgwydd yn amlwg ac yn sicr o ddigwydd heb gymryd camau i'w atal neu lle y cadarnhawyd bod toriad neu ddigwyddiad Dosbarth 1 dan CCS/CICS. Byddai digwyddiadau a thoriadau o'r math hwn yn cyfiawnhau erlyn fel arfer, ond byddwn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer achosion eithriadol. |
| x 3 | Lle nad oedd y tramgwydd yn amlwg, ond lle'r oedd yn sicr o ddigwydd heb roi mesurau angenrheidiol neu resymol ar waith neu lle y cadarnhawyd bod toriad neu ddigwyddiad Dosbarth 2 dan CCS/CICS. |
| x 2 | Lle y mae'r tramgwydd yn digwydd ac yn arwain at gadarnhau sgôr Dosbarth 3 dan CCS/CICS. |
| x 1 | Sgôr Dosbarth 4 wedi'i chadarnhau dan CCS/CICS. Bydd hyn yn cynnwys achosion lle nad oes effaith amgylcheddol ond lle'r oedd modd rhag-weld y byddai diffyg gweithredu'n arwain at y tramgwydd. |
| x 0 | Lle nad oedd yn bosibl rhag-weld y tramgwyddo. Y ffactor yn absennol. Bydd hyn yn cynnwys achosion sydd wedi codi o ganlyniad i ymyrraeth gan drydydd parti nad oedd yn rhesymol disgwyl iddo gael ei rhag-weld, er enghraifft achos o fandaliaeth ar ei ben ei hun neu weithredoedd gan gyflogai anfodlon. |

### 3.6 Anwybyddu cyngor a chyfarwyddyd blaenorol

Caiff y ffactor hwn ei gymhwyso lle y mae cyngor a/neu gyfarwyddyd wedi'u rhoi i dramgwyddwr o'r blaen, neu lle y mae codau ymarfer penodol ar gyfer y sector (er enghraifft, Cod Ymarfer Amaethyddol Da, Y Dechnoleg Orau sydd Ar Gael). Dewisir y sgôr fwyaf addas o'r raddfa isod o rifau cyfan yn ôl amgylchiadau'r achos.

| Lluosydd i'w gymhwyso | Eglurhad |
|---|---|
| x 2 | Lle y mae cyngor wedi'i roi i'r tramgwyddwr er mwyn osgoi neu liniaru'r tramgwydd a'i fod heb ei ddilyn. Bydd hyn yn cynnwys torri amodau trwydded lle y mae Hysbysiad wedi'i gyflwyno sy'n gorfodi darpariaethau a fyddai wedi cael effaith uniongyrchol neu wedi atal y tramgwydd neu ei ganlyniadau, a methu â dilyn cyngor a roddwyd yn uniongyrchol, er enghraifft i atal llygredd ar ôl gwneud asesiad safle. |

| | |
|---|---|
| x 1 | Lle y mae codau ymarfer neu dechnolegau safonol ar gael ar gyfer y gweithgarwch y cododd y tramgwydd ohono ond eu bod heb eu dilyn neu eu defnyddio (neu wedi'u defnyddio'n rhannol yn unig). Bydd hyn yn cynnwys methiant i osod cyfarpar safonol y diwydiant a fyddai'n atal y tramgwydd neu effaith y tramgwydd, neu ddefnyddio cyfarpar eilradd neu gyfarpar darfodedig. |
| x 0 | Lle y mae dogfennau cod ymarfer neu dechnolegau safonol ar gael sydd wedi'u dilyn neu eu defnyddio. Bydd hyn yn cynnwys achosion lle y gweithredwyd fel hyn neu lle'r oedd cyngor a chyfarwyddyd wedi'u dilyn ond bod hynny wedi methu ag atal y tramgwydd. |

## 3.7 Cyfrifo'r lluosydd

Os oes un ffactor sydd â'r gwerth mwyaf (4), hwn fydd y ffactor gwaethygol mwyaf ac ni fydd angen ystyried unrhyw ffactorau eraill.

Os oes nifer o ffactorau, byddwn yn eu hadio at ei gilydd, ond mae terfyn uchaf, sef pedair gwaith y swm dechreuol.

Bydd yr elfen ataliol yn cael ei lluosi â lluosydd y ffactorau gwaethygol cyn ystyried ffactorau lliniarol a didyniadau.

## 4. Ffactorau lliniarol

Wedyn caiff yr elfen ataliol ei gostwng drwy ystyried unrhyw ffactorau lliniarol.

Rhoddir sgôr am bob ffactor lliniarol perthnasol sy'n bresennol a gostyngiad canrannol ar ei gyfer. Mae rhifau canran penodol ar gyfer y rhan fwyaf o'r ffactorau lliniarol, heblaw am ffactor 4.6 'Amgylchiadau personol' a ffactor 4.7 'Nodweddion achos-benodol', sy'n ganrannau rhifau cyfan o fewn amrediad sydd â therfyn uchaf.

Os nad yw ffactor yn bresennol neu os nad oes digon o dystiolaeth, y sgôr fydd 0%.

Wedyn caiff y sgorau canran hyn eu hadio at ei gilydd a'u cymhwyso at yr elfen ataliol (ar ôl cymhwyso'r ffactorau gwaethygol). Y didyniad mwyaf y gellir ei gymhwyso fel arfer fydd 80%. Mewn achosion lle y mae ffactorau sy'n eithriadol neu'n unigryw i'r achos, gellir cynyddu'r didyniad i 100% o'r elfen ataliol.

### 4.1 Mesurau ataliol: 10%

| Didyniad | Eglurhad |
|---|---|
| 10% | Mesurau ataliol effeithiol a gymerwyd yn wirfoddol cyn i'r tramgwydd ddigwydd. Bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth, er enghraifft, seilwaith, systemau rheoli a hyfforddiant nad oeddent yn ofynnol dan drwydded neu safon y diwydiant. |

### 4.2 Cydweithredu â Cyfoeth Naturiol Cymru: 10% ar y mwyaf

Gellir adio'r canrannau canlynol at ei gilydd i roi 10% ar y mwyaf os yw'r ddau ffactor yn bodoli.

| Didyniad | Eglurhad |
|---|---|
| 5% | Cydweithredu'n llawn ac yn wirfoddol mewn ymchwiliad ac asesiad o Gosb Ariannol Amrywiadwy: didyniad. Bydd hyn yn gymwys i gamau a gymerwyd ar ôl darganfod tramgwydd, fel ymchwilio i'r amgylchiadau a arweiniodd at y tramgwydd, dod i gyfweliadau a darparu cofnodion. |
| 5% | Cydweithredu'n brydlon ac yn wirfoddol mewn gwaith adfer: didyniad. Bydd hyn yn gymwys lle y mae effaith amgylcheddol wedi deillio o'r tramgwydd. |

### 4.3 Hunangofnodi: 20%

| Didyniad | Eglurhad |
|---|---|
| 20% | Rhoi gwybod yn wirfoddol ac ar unwaith am beidio â chydymffurfio â rheoliadau. Bydd hyn yn gymwys lle nad ydym yn gwybod am y tramgwydd a lle y mae'r tramgwyddwr wedi rhoi gwybod amdano'n ddi-oed. |

## 4.4 Adfer ac unioni ar unwaith ac yn wirfoddol: 20% ar y mwyaf

Mae'r canlynol yn berthnasol i waith gwirfoddol yn unig. Gellir didynnu am waith sy'n ofynnol dan yr hysbysiad perthnasol o'r ffigur terfynol cyfan (gweler 'Didyniadau' isod).

| Didyniad | Eglurhad |
|---|---|
| 20% | Gwaith wedi'i wneud i adfer ac unioni'r sefyllfa'n llwyr heb ofyniad i wneud hynny. Bydd hyn yn gymwys lle y mae gwaith wedi'i wneud yn wirfoddol heb ofyniad ffurfiol sy'n adfer yr amgylchedd i'r graddau mwyaf posibl i'r hyn oedd cyn cyflawni'r tramgwydd. |
| 10% | Gwaith wedi'i wneud i adfer ac unioni'r sefyllfa'n rhannol heb ofyniad i wneud hynny. Bydd hyn yn gymwys lle y mae gwaith wedi'i wneud sy'n adfer y sefyllfa'n rhannol, ond lle y mae gwaith ychwanegol yr oedd yn bosibl ei wneud heb gael ei gyflawni, er enghraifft am fod y tramgwyddwr yn credu y bydd y gost o wneud hynny'n sicrhau mantais fach yn unig. |

## 4.5 Agwedd at y tramgwydd: 10% ar y mwyaf

| Didyniad | Eglurhad |
|---|---|
| 10% | Cymerwyd camau buan i atal y tramgwydd a sicrhau na fydd yn digwydd eto. Rhoddir y ganran fwyaf lle y mae'r ddau ffactor yn bodoli, er enghraifft camau adfer prydlon, cyfarwyddiadau rheoli, gweithdrefnau, seilwaith a/neu hyfforddiant a fydd yn effeithiol i atal tramgwydd pellach. |
| 5% | Camau buan i atal y tramgwydd. Lle y cymerwyd camau buan i atal y tramgwydd ond lle nad yw camau pellach i atal ail dramgwydd wedi'u cymryd neu lle nad ydynt yn ffactor yn y tramgwydd. |

## 4.6 Amgylchiadau personol: 10%

| Didyniad | Eglurhad |
|---|---|
| 0%-10%<br><br>(Canrannau cyfan yn unig) | Lle y mae amgylchiadau personol y tramgwyddwr yn lliniaru achos y tramgwydd neu ei effeithiau. Bydd hyn yn gymwys lle y mae oed neu allu corfforol neu feddyliol y tramgwyddwr yn effeithio ar ei allu i ymateb drwy weithredu neu ddelio â'r tramgwydd yn ddi-oed neu liniaru ei effeithiau, neu lle y gallai fod yn berthnasol i'r amgylchiadau lle y cyflawnwyd y tramgwydd. Er y bydd rhagdybiaeth na fydd yn gymwys i achos, os cyflwynir tystiolaeth ohono gellir gwneud didyniad drwy arfer disgresiwn yn ôl yr amgylchiadau personol a pha mor gryf oedd eu heffaith ar y tramgwydd. |

## 4.7 Ffactorau achos-benodol: 20%

| Didyniad | Eglurhad |
|---|---|
| 0%-20%<br><br>(Canrannau cyfan yn unig) | Nodweddion lliniaru eraill sy'n berthnasol mewn achos penodol: bydd hyn yn gymwys mewn achosion prin lle y mae ffactorau sy'n anarferol neu'n unigryw i'r achos a gellir ei gymwyso drwy arfer disgresiwn i ddidynnu rhwng 1% a 20%. Mae hyn yn caniatáu i ni ystyried ffactorau sy'n annisgwyl ond a fyddai fel arfer yn lliniaru achos y tramgwydd neu ei effeithiau. |

## 5. Ffigur y gosb gyfan

Y gosb gyfan yw swm y budd ariannol ynghyd â'r elfen ataliol ar ôl cymhwyso'r ffactorau gwaethygol a lliniarol. Gellir ei haddasu ymhellach wedyn drwy wneud didyniadau perthnasol.

## 6. Didyniadau

Yn olaf, gellir lleihau'r gosb gyfan drwy dynnu'r costau hynny y mae'r tramgwyddwr wedi'u codi sy'n ymwneud â'r tramgwydd yn unig. Bydd y costau hyn wedi'u seilio ar dystiolaeth a roddir gan y tramgwyddwr os bydd angen. Os na roddir tystiolaeth yn wirfoddol, bydd yr agwedd hon at y tramgwydd yn cael ei hadlewyrchu fel nodwedd waethygol a thrwy golli unrhyw swm perthnasol sydd ar gael ar gyfer lliniaru.

Mae'r costau hyn yn cynnwys:

- costau cydymffurfio â hysbysiad Cydymffurfio;
- costau i'r tramgwyddwr am unrhyw waith adfer a wnaeth o ganlyniad i gyflwyno hysbysiad Adfer;
- unrhyw gostau yr ydym yn eu hadennill oddi wrth y tramgwyddwr drwy ddefnyddio hysbysiad Adennill Costau Gorfodi;
- didyniad yn ôl ein disgresiwn i gydnabod (a chymell) gwaith adfer gwirfoddol ac ad-dalu;
- taliadau i ddigolledu'r rheini yr effeithiwyd arnynt fel rhan o Ymgymeriad Trydydd Parti.

## 6.1 Costau cydymffurfio â hysbysiad Cydymffurfio

Os cyflwynwyd hysbysiad Cydymffurfio mewn cysylltiad â thramgwydd penodol, didynnir costau'r camau a gymerwyd i gydymffurfio ag ef, os bydd y tramgwyddwr yn darparu tystiolaeth ohonynt. Y costau y gellir eu cynnwys yw costau buddsoddi cyfalaf, gwasanaethau dan gontract ac amser staff ychwanegol sydd ei angen ar ben yr amser a fyddai wedi'i dreulio dan amgylchiadau arferol.

## 6.2 Costau cydymffurfio â hysbysiad Adfer

Os cyflwynwyd hysbysiad Adfer dan Ddeddf GRhS neu hysbysiad Adfer arall dan ddeddfwriaeth benodol (er enghraifft, hysbysiad Gwaith Gwrth-lygredd) mewn cysylltiad â thramgwydd penodol, fe ddidynnir cost y camau i gydymffurfio â'r hysbysiad Adfer, ar sail tystiolaeth gan y tramgwyddwr neu ein hamcangyfrif ein hunain. Y costau y gellir eu cynnwys yw costau'r gwaith adfer ei hun, costau gweinyddol a chostau monitro. Os yw hyn yn cynnwys gwaith i'w gyflawni yn y dyfodol, byddwn yn asesu ac yn cytuno ar y costau cyn eu didynnu; os bydd ansicrwydd am hyn, byddwn yn gwneud amcangyfrif penodedig.

## 6.3 Costau a adenillwyd drwy Hysbysiad Adennill Costau Gorfodi

Os cyflwynwyd hysbysiad Adennill Costau Gorfodi dan Ddeddf GRhS, bydd y cyfanswm, os yw wedi'i dalu, yn cael ei ddidynnu o'r Gosb Ariannol Amrywiadwy cyn gosod y gosb honno. Gallwn gynnwys y costau cyfreithiol, arbenigol neu weinyddol yr ydym wedi'u codi hyd at adeg gosod y Gosb Ariannol Amrywiadwy yn yr hysbysiad Adennill Costau Gorfodi.

## 6.4 Swm i adlewyrchu Ymgymeriad Trydydd Parti gwirfoddol

Byddwn yn didynnu swm i adlewyrchu'r swm y mae'r tramgwyddwr wedi'i wario i ddigolledu trydydd partïon y mae'r tramgwydd wedi effeithio arnynt. Rhoddir didyniad o £1 am bob £1 a wariwyd. Dim ond yr elfen yn yr

Ymgymeriad Trydydd Parti sy'n ymwneud yn uniongyrchol â digolledu am y tramgwydd penodol a gaiff ei hystyried, a rhaid i'r ymgymeriad fod yn un sydd wedi'i wneud i drydydd parti sydd heb gysylltiad â'r tramgwyddwr (hynny yw, nid is-gwmnïau na pherthnasau).

## 6.5 Swm i adlewyrchu unrhyw gostau eraill o ganlyniad i'r tramgwydd sydd wedi'u cyfiawnhau ym marn y rheoleiddiwr

Mae hyn yn caniatáu didyniad am waith gwirfoddol, er enghraifft. Byddwn yn gwneud hyn yn ôl ein disgresiwn a rhaid cael tystiolaeth gan y tramgwyddwr i ddangos ei fod wedi codi'r costau, eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r tramgwydd a'u bod yn angenrheidiol neu er lles yr amgylchedd (gan gynnwys gwaith ataliol ym mangre'r tramgwyddwr) neu'r cyhoedd.

# Atodiad 2: Ymgymeriadau Gorfodi

## 1. Meini prawf ar gyfer derbyn neu wrthod cynnig o Ymgymeriad Gorfodi

### 1.1 Ystyriaethau Cyffredinol

Dim ond dan yr amgylchiadau canlynol y byddwn yn ystyried derbyn cynnig o Ymgymeriad Gorfodi fel arfer:

- os ydym yn credu fod deddfwriaeth berthnasol wedi'i thorri; ac
- os ydym yn credu bod yr Ymgymeriad Gorfodi yn ganlyniad rheoliadol priodol ar ôl ystyried arwyddocâd y materion dan sylw i'r amgylchedd ac i'r gymuned.

Os yw'r cynnig yn ymwneud â thramgwydd sy'n cynnwys llygru'r amgylchedd neu niweidio iechyd dynol, byddem yn edrych yn fwy ffafriol ar eich cynnig os gallech ddangos bod unrhyw waith adfer neu unioni angenrheidiol wedi dechrau ar y cyfle cynharaf.

**1.2** Ni fyddwn yn derbyn cynnig fel arfer:

- am dramgwydd Dosbarth 1, neu lle'r ydym wedi cychwyn achos cyfreithiol;
- mewn achosion lle'r oedd tramgwyddo bwriadol neu'r effaith fwyaf difrifol ar yr amgylchedd (ond ni fyddwn yn diystyru hyn oherwydd byddwn yn arfer disgresiwn bob amser);
- lle'r ydym eisoes wedi penderfynu bod erlyn yn briodol er lles y cyhoedd;
- sydd wedi'i wneud ar ôl cyflwyno sylwadau (negodi) ynghylch y swm mewn Cosb Ariannol Amrywiadwy a roddwyd ar ôl rhoi Rhybudd o Fwriad (bydd hyn yn rhwystro unrhyw ymgais i negodi swm is ar gyfer Cosb Ariannol Amrywiadwy sydd wedi'i hasesu ac wedyn cael Ymgymeriad Gorfodi yn ei lle ar y funud olaf).

**1.3** Ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth benderfynu a yw Ymgymeriad Gorfodi yn ganlyniad rheoliadol priodol yw:

- a ydym yn teimlo bod y person yn debygol o gydymffurfio ag ef o ystyried ei hanes o gydymffurfio;
- natur y tramgwydd ac effaith reoliadol yr ymgymeriad o'i gymharu â mathau eraill o rwymedïau gorfodi;
- y posibilrwydd o sicrhau canlyniad amgylcheddol amserol a boddhaol os yw hyn er lles y cyhoedd.

**1.4** Ceisiwn sicrhau bod Ymgymeriadau Gorfodi a'r broses o'u datblygu, eu gweithredu a'u monitro'n niwtral o ran cost i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Byddem yn croesawu ac yn edrych yn fwy ffafriol ar gynnig o Ymrwymiad Gorfodi sy'n cynnwys camau gan y person i gyfrannu at y costau yr ydym wedi gorfod eu codi hyd at yr adeg y gallem dderbyn y cynnig hwn ac am unrhyw weithgareddau wedyn i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae'n bwysig nodi y byddwn yn ceisio adennill ein costau ym mhob achos lle y mae deddfwriaeth y tramgwydd yn caniatáu hynny, yn unol ag egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'.

**1.5** Ni fyddwn yn derbyn cynnig o Ymgymeriad Gorfodi os yw'n cynnwys:

- cymal sy'n gwadu atebolrwydd;
- unrhyw gymal sy'n creu amddiffyniad ar gyfer y posibilrwydd o beidio â chydymffurfio ag Ymgymeriad Gorfodi.

## 1.6 Ystyriaethau ychwanegol

Dim ond os bydd y person yn ymrwymo i wneud y canlynol y byddwn yn derbyn cynnig o Ymgymeriad Gorfodi:

- ymatal rhag yr ymddygiad penodol neu atal y toriad honedig sy'n peri pryder i Cyfoeth Naturiol Cymru;
- peidio ag ailymgymryd â'r ymddygiad hwnnw.

Rhaid dangos hefyd mewn cynnig o Ymgymeriad Gorfodi sut y bydd y person:

- yn delio â'r ymddygiad y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn pryderu amdano;
- yn atal yr ymddygiad hwnnw rhag digwydd eto;
- yn unioni canlyniadau'r ymddygiad, gan gynnwys rhyngweithio ag unrhyw drydydd parti y mae'r tramgwydd wedi effeithio arno.

## 2.0 Enghreifftiau o bethau y gellid eu cynnwys mewn cynnig o Ymgymeriad Gorfodi

**2.1** Dylech gynnwys camau gweithredu yn eich cynnig o Ymgymeriad Gorfodi a fydd:

- yn sicrhau na fydd y tramgwydd yn parhau neu'n digwydd eto;
- yn adfer y sefyllfa i'r hyn a fyddai pe na byddai'r tramgwydd wedi'i gyflawni;
- o les i unrhyw berson y mae'r tramgwydd wedi effeithio arno (gan gynnwys talu swm o arian); neu
- yn sicrhau budd neu welliant cyfwerth yn yr amgylchedd, os nad yw'n bosibl unioni'r niwed sy'n ganlyniad i'r tramgwydd .

Rhaid cynnwys o leiaf un o'r uchod yn eich cynnig neu caiff ei wrthod.

**2.2** Enghreifftiau o gamau gweithredu a allai fod yn rhan o'ch cynnig yw:

- hyfforddi staff;
- cynnal gwaith i atal y tramgwydd rhag digwydd eto (gan gynnwys cynnal astudiaethau llygredd a rhaglenni i leihau llygredd);
- rhoi rhaglen ar waith i gydymffurfio'n well â'r ddeddfwriaeth yn gyffredinol.

Byddem am weld yr elfennau canlynol mewn rhaglen gydymffurfio fewnol:

- manylion y dulliau monitro a chofnodi y bydd y person yn eu mabwysiadu;
- ymrwymiad profadwy gan y Bwrdd a'r uwch-reolwyr i'r rhaglen gyfan a'i gweithredu;
- aseinio'r cyfrifoldeb dros y rhaglen gydymffurfio i un o uwch-reolwyr y person a fydd wedi'i enwi;
- datblygu polisi cydymffurfio clir a'i ledaenu drwy'r sefydliad;
- enwi materion ar gyfer cydymffurfio a rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth;
- datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer cydymffurfiaeth a'i darparu i grwpiau personél allweddol o fewn y sefydliad;
- sefydlu dulliau parhaol o wirio a monitro gweithdrefnau, er enghraifft enwebu swyddog cydymffurfiaeth a phennu gweithdrefnau i atal toriadau yn y dyfodol ac osgoi toriadau posibl ac adrodd amdanynt hefyd i uwch-reolwyr;
- ymrwymo i gynnal archwiliad annibynnol o'r rhaglen gydymffurfiaeth yn rheolaidd (bob blwyddyn fel arfer), am gyfnod penodol (3 blynedd fel arfer);
- gofyniad i gyflwyno adroddiad i ni ar amser penodedig am y camau a gymerwyd i weithredu'r rhaglen gydymffurfiaeth.

**2.3** Gellir cynnwys y canlynol mewn Ymgymeriad Gorfodi hefyd:

- enw uwch-reolwr sy'n gyfrifol am fonitro a chydymffurfio â'r ymgymeriad;
- enw swyddog yn Cyfoeth Naturiol Cymru y mae'n rhaid i'r swyddog cyswllt adrodd iddo.

Fel arfer, bydd y person sy'n rhoi'r ymgymeriad yn gyfrifol am y canlynol:

- monitro'r ffordd y mae'r ymgymeriad yn cael ei weithredu;
- adrodd ar hyn i Cyfoeth Naturiol Cymru yn y ffordd sydd wedi'i phennu.

Rhaid disgrifio'r ffordd y mae'r person sy'n rhoi'r ymgymeriad yn bwriadu gwneud hyn yn y cynnig o Ymgymeriad Gorfodi a rhaid i ni gael ein bodloni bod hyn yn ddigonol. Wrth ddatrys unrhyw fater byddwn am gael ffyrdd o wneud iawn am y tramgwydd.

## 3.0 Derbyn eich cynnig

Ar ôl derbyn eich cynnig, bydd yn gytundeb ysgrifenedig cyfreithiol rwymol rhyngoch chi a Cyfoeth Naturiol Cymru. Oherwydd hyn, gallwn gymryd camau gorfodi ar sail y camau gweithredu yr ydych wedi'u cynnig.

## 4.0 Amrywio neu ymestyn Ymgymeriad Gorfodi

Gellir amrywio Ymgymeriad Gorfodi, neu ymestyn y cofnod y mae'n rhaid cwblhau'r cam(au) gweithredu o'i mewn, os bydd y ddau barti'n cytuno mewn ysgrifen. Dylid gwneud ceisiadau drwy lythyr i un o'r ddau gyfeiriad sydd yn Rhan 5 o'r 'ffurflen Cynnig Ymgymeriad Gorfodi'.

Er mwyn ystyried cais gennych chi i amrywio neu ymestyn yr Ymgymeriad Gorfodi, rhaid i ni ei gael cyn y dyddiad(au) gwreiddiol ar gyfer cwblhau a rhaid i chi ddangos eich bod wedi cymryd camau rhesymol i gydymffurfio.

Byddwn yn gwrthod ceisiadau fel arfer os byddwn yn eu cael ar ôl y dyddiad(au) perthnasol ar gyfer cwblhau.

## 5.0 Cyflawni Ymgymeriad Gorfodi

**5.1** Os credwch eich wedi wedi cydymffurfio'n llwyr â'r Ymgymeriad Gorfodi, gallwch wneud cais am Dystysgrif Gwblhau ar unrhyw adeg. Dylech wneud cais drwy lythyr i un o'r ddau gyfeiriad sydd yn Rhan 5 o'r 'ffurflen Cynnig Ymgymeriad Gorfodi'.

Rhaid i chi gynnwys digon o wybodaeth gyda'ch cais i'n helpu i benderfynu a yw'r ymgymeriad wedi'i gyflawni'n llwyr ac a allwn gyhoeddi tystysgrif gwblhau neu beidio. Gall hyn gynnwys tystiolaeth ddogfennol fel derbynebau neu adroddiadau technegol ar waith sydd wedi'i gwblhau.

Bydd angen tystiolaeth arnom hefyd i ddangos bod yr holl drydydd partïon yr effeithiwyd arnynt wedi derbyn unrhyw arian a oedd yn ddyledus iddynt dan eich cynnig.

Os methwch â darparu gwybodaeth o'r fath, gallwn fynnu ei chael gennych drwy roi hysbysiad ysgrifenedig a gallem benderfynu peidio â rhoi tystysgrif.

Byddwn hefyd yn caniatáu i'r rheini yr ydym wedi derbyn Ymgymeriadau Gorfodi ganddynt gyflwyno gwybodaeth i ni ar delerau a gytunwyd, os oes angen. Rydym hefyd yn ystyried y dull o gyflwyno gwybodaeth am welliannau i reoleiddwyr eraill.

**5.2** Mewn rhai achosion gallem hefyd ystyried ei bod yn briodol rhoi tystysgrif gwblhau heb fod angen i ni ymweld â'r safle, lle'r ydym wedi cael cais ysgrifenedig sy'n cynnwys digon o wybodaeth i ni asesu cydymffurfiaeth ynghyd â datganiad wedi'i lofnodi gan uwch berson (e.e. Perchennog, Cyfarwyddwr, Aelod Bwrdd etc) yn y sefydliad sy'n cadarnhau bod yr holl gamau yn yr Ymgymeriad Gorfodi wedi'u cwblhau. Er enghraifft, lle'r ydym wedi cael copi electronig o Gynllun Monitro Amgylcheddol.

**5.3** Wedi i ni asesu'ch cais, byddwn yn penderfynu a fyddwn yn rhoi Tystysgrif Gwblhau ac yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i chi o fewn 14 o ddiwrnodau calendr ar ôl cael eich cais, un ai:

- drwy roi Tystysgrif Gwblhau i chi; neu
- gyflwyno Hysbysiad Gwrthod i chi a fydd yn egluro'r rhesymau dros beidio â rhoi tystysgrif.

**5.4** Gallwn ddirymu tystysgrif gwblhau hefyd, os credwn ei bod wedi'i rhoi ar sail gwybodaeth a oedd yn anghywir, yn anghyflawn neu'n gamarweiniol. Wedyn ystyrir nad ydych wedi cydymffurfio â'r Ymgymeriad Gorfodi.

## 6.0 Ymateb drwy orfodi a gosod sancsiynau

Bydd methu â chydymffurfio ag Ymgymeriad Gorfodi (yn llwyr neu'n rhannol) yn debygol o arwain at un o'r ymatebion canlynol:

- cyflwyno Cosb Ariannol Amrywiadwy, hysbysiad Cydymffurfio neu hysbysiad Adfer i chi; neu
- eich erlyn am y tramgwydd gwreiddiol.

## 7.0 Ymgymeriadau Gorfodi ac Ymgymeriadau Trydydd Parti

Fel y gwelwyd uchod, gellir defnyddio'r Ymgymeriad Gorfodi mewn nifer o sefyllfaoedd gwahanol. Mae'r defnydd o'r Ymgymeriad Trydydd Parti yn fwy cyfyngedig, fodd bynnag, ac mae ei gwmpas yn llai o lawer. Yr unig sefyllfa lle y gellir cynnig Ymgymeriad Trydydd Parti i'r tramgwyddwr yw lle y mae eisoes wedi cael Rhybudd o Fwriad i gyflwyno un o'r canlynol: Cosb Ariannol Amrywiadwy, hysbysiad Cydymffurfio neu hysbysiad Adfer. Unig swyddogaeth yr Ymgymeriad Trydydd Parti yw cynnig digolledu rhywun y mae'r tramgwydd wedi effeithio arno.

## Atodiad 3: Seiliau dros Apelio yn erbyn cosbau Deddf GRhS

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | Mae'r seiliau dros apelio yn erbyn y gwahanol gosbau dan Ddeddf GRhS wedi'u rhestru isod. |
| **Cosbau Ariannol Penodedig** | ▪ Bod y penderfyniad wedi'i seilio ar wall ffeithiol;<br>▪ Bod y penderfyniad yn anghywir dan y gyfraith;<br>▪ Bod y penderfyniad yn afresymol;<br>▪ Unrhyw reswm arall. |
| **Cosbau Ariannol Amrywiadwy** | ▪ Bod y penderfyniad wedi'i seilio ar wall ffeithiol;<br>▪ Bod y penderfyniad yn anghywir dan y gyfraith;<br>▪ Bod swm y gosb yn afresymol;<br>▪ Yn achos gofyniad nad yw'n ariannol, fod natur y gofyniad yn afresymol;<br>▪ Bod y penderfyniad yn afresymol am unrhyw reswm arall;<br>▪ Unrhyw reswm arall. |
| **Hysbysiadau cydymffurfio ac adfer** | ▪ Bod y penderfyniad wedi'i seilio ar wall ffeithiol;<br>▪ Bod y penderfyniad yn anghywir dan y gyfraith;<br>▪ Yn achos gofyniad nad yw'n ariannol, fod natur y gofyniad yn afresymol;<br>▪ Bod y penderfyniad yn afresymol am unrhyw reswm arall;<br>▪ Unrhyw reswm arall. |
| **Cosbau am beidio â chydymffurfio** | ▪ Bod y penderfyniad i gyflwyno'r hysbysiad wedi'i seilio ar wall ffeithiol;<br>▪ Bod y penderfyniad yn anghywir dan y gyfraith;<br>▪ Bod y penderfyniad yn annheg neu'n afresymol am unrhyw reswm;<br>▪ Bod swm y gosb yn afresymol;<br>▪ Unrhyw reswm arall. |
| **Hysbysiadau Adennill Costau Gorfodi** | ▪ Yn erbyn ein penderfyniad i osod gofyniad i dalu costau;<br>▪ Yn erbyn ein penderfyniad ynghylch swm y costau hynny;<br>▪ Unrhyw reswm arall. |
| **Tystysgrif gwblhau Ymgymeriad Gorfodi** | ▪ Bod y penderfyniad i beidio â rhoi tystysgrif wedi'i seilio ar wall ffeithiol;<br>▪ Bod y penderfyniad yn anghywir dan y gyfraith;<br>▪ Bod y penderfyniad yn annheg neu'n afresymol;<br>▪ Bod y penderfyniad yn anghywir am unrhyw reswm arall. |

**Hysbysiadau atal**

- Bod y penderfyniad wedi'i seilio ar wall ffeithiol;
- Bod y penderfyniad yn anghywir dan y gyfraith;
- Bod y penderfyniad yn afresymol;
- Bod unrhyw gam gweithredu sydd wedi'i bennu yn yr hysbysiad yn afresymol;
- Nad yw'r person wedi cyflawni'r tramgwydd ac na fyddai wedi'i gyflawni pe na byddai'r hysbysiad atal wedi'i gyflwyno;
- Na fyddai'r person, ar sail unrhyw amddiffyniad a roddir, wedi bod yn agored i'w gollfarnu am y tramgwydd pe na byddai'r Hysbysiad Atal wedi'i gyflwyno;
- Unrhyw reswm arall.

---

**Tystysgrif gwblhau hysbysiad atal**

- Bod y penderfyniad i beidio â rhoi tystysgrif gwblhau wedi'i seilio ar wall ffeithiol;
- Bod y penderfyniad yn anghywir dan y gyfraith;
- Bod y penderfyniad yn annheg neu'n afresymol;
- Bod y penderfyniad yn anghywir am unrhyw reswm arall.

---

**Iawndal**

Caiff person apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â rhoi iawndal neu yn erbyn swm yr iawndal:

- Ar y sail bod ein penderfyniad yn afresymol;
- Ar y sail bod y swm a gynigiwyd wedi'i seilio ar ffeithiau anghywir;
- Unrhyw reswm arall.

---